

# Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru

Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio](http://www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddArchwilio@assembly.wales](mailto:SeneddArchwilio@assembly.wales)**  
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru**

Mai 2018



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Neil Hamilton AC**  
UKIP Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Vikki Howells AC\***  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Rhianon Passmore AC**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Adam Price AC\*\***  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Lee Waters AC**  
Llafur Cymru  
Llanelli

\* Etholwyd i'r Pwyllgor ar 21 Mehefin 2017. Dirprwyodd Mike Hedges AC yn y cyfarfod ar 26 Mehefin 2017.

\*\* Etholwyd i'r Pwyllgor ar 18 Hydref 2017

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Neil McEvoy AC**  
Annibynnol  
Canol De Cymru

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>8</b>
Cefndir adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru .....	8
Adroddiad y Pwyllgor .....	9
Y Themâu Allweddol .....	9
<b>2. Cyllid Cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru .....</b>	<b>14</b>
Gwerth Cyffredinol am Arian y Cyllid Cychwynnol .....	14
Goruchwyliaeth annigonol gan Lywodraeth Cymru o'r defnydd o arian cyhoeddus gan Heads of the Valleys Development Company.....	15
Cwmnïau Cysylltiedig.....	15
Taliadau Cadw Misol a dalwyd i Aventa a chwmnïau eraill .....	18
Caffael FTR.....	21
Trefniant Caffael Amodol ar gyfer safle Cylchffordd Cymru.....	29
Y cytundeb gwarant benthychiad.....	31
Gwahanu Dyletswyddau.....	33
Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol .....	35
<b>3. Proses Benderfynu Llywodraeth Cymru.....</b>	<b>38</b>
Rôl "Grwpiau Sicrwydd Mewnol" a'r defnydd ohonynt .....	38
Creu Swyddi.....	40
Dosbarthiad y Fantolen a Dadansoddi Risg .....	42
Dosbarthiad y Fantolen .....	42
Cyngor o ffynonellau allanol.....	47
Canllawiau Pwysoli Risg.....	49
Cyfathrebu â Heads of the Valleys Development Company .....	51
Dim "showstoppers" .....	51
Cyfathrebu ar ôl y Penderfyniad .....	52
HOVDC a'r Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwyd.....	53
<b>Atodiad - Tystion .....</b>	<b>55</b>

---



## Rhagair y Cadeirydd

Roedd prosiect arfaethedig Cylchffordd Cymru yn brosiect unigryw, a oedd, i bob golwg, yn cynnig y posibilrwydd o adfywio ardal economaidd ddifreintiedig. Roedd Llywodraeth Cymru yn iawn i ymchwilio i'r posibiladau o wneud i'r prosiect hwn lwyddo ac, yn briodol ddigon, nid swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw gwneud sylwadau ar rinweddau penderfyniad terfynol y Cabinet i beidio â darparu'r cymorth y gofynnwyd amdano ar ffurf arian cyhoeddus.

Rydym yn bryderus iawn, fodd bynnag, ynghylch sut yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r prosiect hwn. Rydym am i Gymru fod yn ddewis cyntaf ar gyfer buddsoddi ac, er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r broses benderfynu sy'n cael ei dilyn gan y rhai sy'n gyfrifol am wario arian trethdalwyr fod yn gydlynol a chael eu dogfennu'n briodol.

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar y cyllid cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru ym mis Ebrill 2017, a amlygodd ddiffygion sylweddol yn y modd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r prosiect hwn. Rhoddodd yr adroddiad hwn sylfaen gadarn i'n hymchwiliad a ehangodd y tu hwnt i'r cyllid cychwynnol ac i broses benderfynu Llywodraeth Cymru ar y cynnig terfynol.

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r prosiect hwn wedi amrywio. Gwnaeth Llywodraeth Cymru rai penderfyniadau anesboniadwy wrth ddarparu cyllid cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, megis awdurdodi taliad i brynu FTR (cwmni beiciau modur yn Swydd Buckingham) fel rhan o'r grant datblygu eiddo a fwriadwyd i brynu tir yng Nglynebwy. Yna, ar ôl gwneud y penderfyniad i beidio â darparu'r warant y gofynnwyd amdani, dewisodd Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei gyfiawnhad dros hyn ar fater cyfrifo technegol, yn hytrach na chyfeirio at yr ymarfer diwydrwydd dyladwy cynhwysfawr yr oedd wedi'i gomisiynu. Arweiniodd hyn at ddryswch ymysg y cyhoedd ac ni wnaeth fawr ddim i ennyn hyder yng ngallu'r Llywodraeth i ymdrin ag arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn dda.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dangos rheolaeth effeithiol dros arian cyhoeddus Cymru ac yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i fuddsoddi yng Nghymru. Mewn ymateb i adroddiadau olynol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan yr Archwilydd Cyffredinol, a chan y Pwyllgor hwn a'i ragflaenwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi ein sicrhau droeon fod 'gwersi wedi'u dysgu'. Yn sicr, nid ydym yn disgwyl gweld unrhyw gamgymeriadau sylfaenol, hepgoriadau a phenderfyniadau gwael ar ran swyddogion a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'n gwaith yn digwydd eto.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, ac a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus



## Geirfa ar gyfer Cylchffordd Cymru

**Heads of the Valleys Development Company (HODVC)** – Cwmni a oedd yn bwriadu datblygu Cylchffordd Cymru

**Michael Carrick** – Prif Weithredwr HoVDC

**Richard Parry-Jones** – HoVDC

**Martin Whitaker** – HoVDC

**FTR** – cwmni beiciau modur yn Swydd Buckingham, a brynwyd gan HoVDC yn ystod camau cychwynol prosiect Cylchffordd Cymru

**Aventa Capital Partners** – Cwmni Rheoli Buddsoddiadau sy'n ymwneud â datblygu cynnig Cylchffordd Cymru (sydd ym mherchnogaeth lwyr cyfranddeiliad rheoli a Phrif Weithredwr HoVDC, Mr Michael Carrick)

**Ken Skates AC** – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (o 24 Mai 2016). Yn dilyn Ad-drefnu'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017, newidiodd teitl ei bortffolio i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Edwina Hart** – Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y pryd (y Pedwerydd Cynulliad 2011-2016)

**James Price** – Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol (tan fis Rhagfyr 2017)

**Tracey Mayes** – Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru

**Andrew Jeffreys** – Cyfarwyddwr – Trysorlys, Llywodraeth Cymru

**Shan Morgan** – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

**Grant Datblygu Eiddo** – Cynllun grant Llywodraeth Cymru y gall y sector preifat ei ddefnyddio i ariannu prynu tir ac eiddo er mwyn ysgogi datblygiad economaidd.

**Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)** – Yn gyfrifol am ddarparu dosbarthiad ffurfiol ynghylch a yw prosiect 'ar' neu 'oddi ar' fantolen y Llywodraeth ar ôl i brosiect gael ei gymeradwyo a phan fydd contract wedi'i lofnodi.

**Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (IPA)** – canolfan arbenigedd Llywodraeth y DU ar gyfer seilwaith a phrosiectau mawr

## 1. Cyflwyniad

1. Menter uchelgeisiol i adeiladu cylchffordd rasio ceir a beiciau modur ar rostir ger Glynebwy ym Mlaenau Gwent oedd Cylchffordd Cymru (CoW). Y bwriad oedd cael cylchffordd rasio o safon ddigon uchel i gynnal ystod o chwaraeon modur, gan gynnwys rasys beiciau modur pencampwriaeth y byd, er na fyddai wedi'i adeiladu i ofynion rasio ceir Formula One. Arweiniwyd prosiect CoW gan Heads of the Valleys Development Company (HoVDC), a sefydlwyd yn benodol at y diben hwn yn 2011.

2. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) adroddiad, ar 27 Ebrill 2017, yn nodi'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r ffordd y bu i Lywodraeth Cymru reoli ei phe cyn cymorth ariannol cychwynnol ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru. Hyd at y pwynt hwnnw, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £9.3 miliwn i HoVDC.

3. Rhwng 2011 a 2017, cyflwynodd HoVDC nifer o wahanol gynigion am gymorth gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau'r £430 miliwn o gyllid yr oedd yn ei ystyried yn angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r cylchffordd. Cyflwynodd Circuit of Wales Ltd gais ffurfiol i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2017 a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ddarparu gwarant ar gyfer cyfleuster benthyciad Aviva Investors o £210 miliwn.

4. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ddatganiad ysgrifenedig ar 27 Mehefin 2017<sup>1</sup> yn dweud bod y Cabinet wedi penderfynu peidio â darparu gwarant ariannol ar gyfer y prosiect.

### Cefndir adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

5. Canolbwyntiodd Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ba mor dda yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniadau i roi cymorth ariannol cychwynnol i'r prosiect; rheoli risgiau drwy osod amodau a sicrhau ei hun bod yr arian a roddwyd yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd.

6. Nododd yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £9.3 miliwn i gefnogi datblygiad cychwynnol prosiect CoW, ond nododd ddiffygion sylweddol o ran sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r risgiau cysylltiedig i arian trethdalwyr.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, **Datganiad Ysgrifenedig**, 27 Mehefin 2017

**7.** Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn canolbwyntio ar y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru hyd at yr adeg y cafodd ei gyhoeddi (Ebrill 2017). Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol asesu rhinweddau rhoi mwy o gymorth ar ffurf arian cyhoeddus i HoVDC nac adolygu hyfywedd yr achosion busnes ar gyfer adeiladu a gweithredu'r gylchffordd rasio.

**8.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau digonol i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Fodd bynnag, nid oedd ei Adroddiad yn edrych yn uniongyrchol ar ymddygiad unigolion neu endidau a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod Seneddol gyda'r Archwilydd Cyffredinol, archwiliodd y tîm astudio hefyd rai taliadau penodol a wnaed gan gwmni a oedd yn gysylltiedig â HoVDC, i ganfod a oedd y rhain yn ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus. Canfuwyd nad oedd y taliadau hyn yn gyfystyr â defnyddio arian cyhoeddus.

## Adroddiad y Pwyllgor

**9.** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad, a chynhaliodd sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2017. Bu cryn oedi cyn cynnal y sesiwn dystiolaeth hon gan nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru ar gael.

**10.** Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chefnogi'r cynnig cyllido gan HoVDC, edrychodd y Pwyllgor hefyd ar rai materion a oedd yn codi o'r broses benderfynu ar gyfer y prosiect hwn.

**11.** Ni wnaeth y Pwyllgor ystyried teilyngdod y penderfyniad, ond yn hytrach, canolbwyntiodd ar y broses benderfynu, ac yn benodol ar sut y cafodd gwybodaeth ei chyfathrebu i'r cwmni.

**12.** O ganlyniad, mae dwy ran i'r adroddiad hwn: mae'r rhan gyntaf yn edrych ar gyllid cychwynnol ar gyfer y gylchffordd ac mae'r ail ran yn ystyried y broses benderfynu. Mae'r bennod casgliadau yn dwyn ynghyd nifer o themâu allweddol sy'n deillio o'r ymchwiliad hwn.

## Y Themâu Allweddol

**13.** Roedd Cylchffordd Cymru yn brosiect unigryw, a oedd, i bob golwg, yn cynnig y posibilrwydd o adfywio ardal economaidd ddifreintiedig. O'r herwydd, credwn fod Llywodraeth Cymru yn iawn i ymchwilio i'r posibiliadau i geisio sicrhau bod y prosiect hwn yn llwyddo ac, yn briodol ddigon, nid swyddogaeth y Pwyllgor

hwn yw gwneud sylwadau ar benderfyniad terfynol y Cabinet i beidio â darparu'r cymorth y gofynnwyd amdano ar ffurf arian cyhoeddus.

**14.** Rydym yn bryderus iawn, fodd bynnag, ynghylch sut yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r prosiect hwn. Rydym am i Gymru fod yn ddewis cyntaf ar gyfer buddsoddi ac, er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y rhai sy'n gyfrifol am wario arian trethdalwyr fod yn gydlynol a chael eu dogfennu'n briodol.

**15.** Amlygodd ymchwiliad y Pwyllgor nifer o bryderon ynglŷn â chadernid y broses benderfynu, yn enwedig o ran y sail resymegol dros amrywiol benderfyniadau a wnaed gan swyddogion ac ansawdd gwael eu cofnodion. Roedd rhai o'r ymatebion llafar ac ysgrifenedig a dderbyniodd y Pwyllgor mewn tystiolaeth gan dystion yn ochelgar (ac mae'r ffaith y bu'n rhaid i'r pwyllgor ysgrifennu atynt sawl gwaith ynghylch yr un pwynt yn dystiolaeth o hynny)<sup>2</sup>, ac nid oeddent yn ymddangos yn gyfoes - er enghraifft, y sail resymegol dros y taliadau cadw misol a dalwyd i Aventa, a hefyd y cyfiawnhad gwan iawn ar gyfer cynnwys caffael y cwmni FTR yng ngham 1 y prosiect. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod darparu £300,000 o arian y trethdalwyr i gaffael FTR wedi arwain at unrhyw werth am arian o gwbl.

**16.** Thema arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad oedd y defnydd o ddisgresiwn helaeth gan swyddogion i beidio â hysbysu eu Gweinidog/Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud. Nid oes dadl o gwbl bod angen caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn i swyddogion wneud rhai penderfyniadau, er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y Llywodraeth o dan egwyddor Carltona.<sup>3</sup> Fodd bynnag, ymddengys yn yr achos hwn y dylid bod wedi cael cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer rhai o'r penderfyniadau allweddol a wnaed gan swyddogion, megis cynnwys FTR yn y Grant Datblygu Eiddo.

**17.** At hynny, creodd methiant swyddogion i roi gwybodaeth allweddol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, megis dyddiad cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ynghyd â'r anghywirdebau yn natganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru dyddiedig 27 Ebrill<sup>4</sup> a datganiadau i'r wasg yn

---

<sup>2</sup> **Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-02-18 P2, 22 Ionawr 2018**

<sup>3</sup> Mae athrawiaeth Carltona (neu egwyddor Carltona) yn mynegi'r syniad bod gweithredoedd swyddogion adrannau'r Llywodraeth yn gyfystyr â gweithredoedd y gweinidog sy'n gyfrifol am yr adran honno, yn neddf gwlad y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd y pwynt yn achos Carltona Ltd v Comisiynwyr Gwaith.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, 27 Ebrill 2017

ymwneud â'r prosiect hwn, argraff gref ar y Pwyllgor o adran nad oedd ganddi reolaeth briodol dros ei busnes ac sydd bellach, o dan ei harweinyddiaeth newydd, angen pwysu a mesur ei sefyllfa a rhoi dulliau llywodraethu a sianelau cyfathrebu mewnol cadarn ac effeithiol ar waith i sicrhau nad yw materion o'r fath yn codi eto.

**18.** Y thema allweddol olaf a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn oedd cyfathrebu penderfyniadau yn allanol. Rydym yn amddiffyn yn llwyr hawl y Llywodraeth i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth er budd gorau Cymru; fodd bynnag, wrth wneud hynny mae'n rhaid iddi gyfathrebu'n effeithiol, gyda'r cyhoedd a chyda'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r mater dan sylw. Nid yw'r awgrym bod penderfyniad y Cabinet wedi'i seilio'n bennaf ar fater cyfrifo technegol yn adlewyrchu'r hyn a oedd, yn ôl dealltwriaeth y Pwyllgor, yn arfarniad diwydrwydd dyladwy cynhwysfawr o rinweddau'r prosiect CoW, ac efallai ei fod wedi tanseilio hyder y cyhoedd yn ddiangen ym mhroses benderfynu Llywodraeth Cymru.

**19.** Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r Pwyllgor wedi gwneud yr 13 argymhelliad a ganlyn i Lywodraeth Cymru, sydd i'w gweld yng nghorff yr adroddiad:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei rheolaethau i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus mewn perthynas â:

- Hawliadau sy'n ymwneud â thaliadau am wasanaethau ar sail taliadau cadw, i sicrhau bod y gwasanaethau wedi cael eu darparu;
- Hawliadau am daliad sy'n ymwneud â chwmnïau neu unigolion sy'n bartïon cysylltiedig, p'un a ydynt yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hawlydd ai peidio neu ar y ffordd y caiff y prosiect a ariennir ei gynnal.
  - Hawliadau sy'n ymwneud â thaliadau am wasanaethau ar sail taliadau cadw, i sicrhau bod y gwasanaethau wedi cael eu darparu;
  - Hawliadau am daliad sy'n ymwneud â chwmnïau neu unigolion sy'n bartïon cysylltiedig, p'un a ydynt yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hawlydd ai peidio neu ar y ffordd y caiff y prosiect a ariennir ei gynnal. ....Tudalen 21

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod y trefniadau cyllido ar gyfer prynu FTR yn cael eu defnyddio fel astudiaeth achos at ddibenion hyfforddiant mewnol gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y penderfyniadau anghonfensiynol iawn a wnaed ar lefel swyddogol, y diffyg dogfennaeth ategol a methiant swyddogion i ofyn am y

gymeradwyaeth ofynnol gan eu Gweinidog a chael y gymeradwyaeth honno..... Tudalen 29

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei bod wedi adennill y £100,000 o'r cyfrif ysgrow..... Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofyniad cytundebol yn cael ei gynnwys ar gyfer taliadau yn y dyfodol a wneir i dalu am wariant cymwys sy'n gysylltiedig â chyfrifon ysgrow os bydd prosiect yn methu..... Tudalen 31

**Argymhelliad 5.** Ar gyfer pob prosiect lle ceir risg sylweddol neu symiau mawr o arian, rydym yn argymell bod gofyniad i ymgeiswyr ddewis i'w datganiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol yn cael ei gynnwys yn amodau cyllido Llywodraeth Cymru, a bod y telerau hyn yn cael eu gorfodi'n llym fel rhan o drefniadau monitro parhaus cadarn..... Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei threfniadau er mwyn sicrhau bod modd i staff, pryd bynnag y bydd ganddynt bryderon am gyfarwyddiadau gan swyddogion awdurdodi, godi'r pryderon hynny gydag uwch reolwr annibynnol a bod yn hyderus i wneud hynny..... Tudalen 35

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylid atgoffa holl Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a holl Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru o'r gofynion yn y Codau Gweinidogol a Gwasanaeth Sifil i sicrhau cywirdeb yr holl wybodaeth a ryddheir..... Tudalen 37

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn safoni'r defnydd o'r mecanwaith "grŵp sicrwydd mewnol" ar gyfer pob penderfyniad buddsoddi cymhleth, newydd neu fawr yn y dyfodol..... Tudalen 40

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu methodoleg fwy soffistigedig i werthuso effaith economaidd gyffredinol prosiectau a allai gael cymorth arianol gan y sector cyhoeddus, gan gynnwys dadansoddiad cadarn o rannu risgiau a manteision, a gwerth am arian gwarantau benthyciadau ac opsiynau cyllido eraill nad ydynt yn ymwneud â grant.  
..... Tudalen 42

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio gyda Thrysorlys ei Mawrhydi a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i a oes modd gwella'r canllawiau cyhoeddedig ar bwysoliad risg prosiectau o'r math hwn er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl berthnasol mewn cyd-destun datganoledig..... Tudalen 50

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartïon perthnasol i sefydlu polisi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau mawr, a fydd yn nodi ffynonellau cyngor posibl megis ONS, IPA..... Tudalen 50

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu arfer safonol o sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cytuno ar gywirdeb ffeithiol nodiadau cyfarfodydd adeg eu drafftio..... Tudalen 53

**Argymhelliad 13.** O gofio'r Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwyr a statws ariannol ansicr HOVDC, mae angen eglurhad ar y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru o'r camau y mae'n eu cymryd i adennill y ddyled o £7.3m gan HoVDC sy'n deillio o warant benthyciad Llywodraeth Cymru..... Tudalen 54

## 2. Cyllid Cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru

### Gwerth Cyffredinol am Arian y Cyllid Cychwynnol

**20.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol ddiffygion sylweddol yn y modd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r cyllid cychwynnol ar gyfer y prosiect Cylchffordd Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd yn credu y gallai ddangos gwerth am arian ar gyfer ei chymorth ariannol i'r prosiect CoW hyd fis Ebrill 2017 (dyddiad adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol). Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 26 Mehefin 2017, dywedodd James Price, y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol bryd hynny:

"I am persuaded that we have achieved value for money for what we have got, yes, which is a project that is ready, subject to finance, to be delivered. So, yes."<sup>5</sup>

**21.** Awgrymodd James Price fod y £9.3 miliwn yn cynrychioli gwerth am arian p'un a fyddai'r Prosiect yn mynd yn ei flaen ai peidio.<sup>6</sup> Yng ngoleuni penderfyniad y Cabinet ar 27 Mehefin 2017, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd yn teimlo bod y datganiad hwn yn dal i fod yn ddilys. Nododd James Price:

"... the cost of developing the Circuit of Wales project is considered to be appropriate for a project of this complexity and magnitude. Sometimes costs are incurred in developing projects which don't proceed. It is important to invest sufficiently to determine whether a project is viable; had we not done so then we would potentially have had less robust data on which to base our eventual decision.

When assessing the initial support to HOVDC, the Welsh Government assessed the risks of providing financial support to the Circuit of Wales (CoW) project and the relative potential benefits to the economy. It was determined that the benefit of providing the initial funding would be the advancement of the project and the securing of the economic impacts it would create. This was balanced against the risk of recovery of any costs incurred. Although recognised as a high risk at the time, these benefits were considered to represent value for money. The

---

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 22

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 428



decision made by Cabinet does not affect the validity of this statement, which was informed by the evidence available at that time.”<sup>7</sup>

**22.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall fod yn briodol i Lywodraethau ddarparu cymorth ariannol ar gyfer camau cychwynnol prosiectau 'risg uchel' sy'n cael eu harwain gan y sector preifat lle mae manteision megis adfywio a chreu swyddi'n ymddangos yn bosibl. Felly, rydym yn cytuno â James Price ei bod yn bwysig buddsoddi'n ddigonol i benderfynu a yw prosiect yn hyfyw.<sup>8</sup> Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi goruchwyllo ei buddsoddiad yn briodol, a thrafodir agweddau ar hynny yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn. Nid yw'r Pwyllgor felly'n credu y gall Llywodraeth Cymru ddangos yn llawn werth am arian y buddsoddiad hwn.

## Goruchwyliaeth annigonol gan Lywodraeth Cymru o'r defnydd o arian cyhoeddus gan Heads of the Valleys Development Company

### Cwmnïau Cysylltiedig

---

**23.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod bron hanner cyfanswm y taliadau gwerth £9.3 miliwn a wnaed gan HoVDC a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru o dan ei Grant Datblygu Eiddo a threfniadau gwarant benthyciad (ac eithrio taliadau a ffioedd banc) wedi cael eu gwneud gyda neu drwy naw cwmni a oedd â pherthynas â HoVDC.

**24.** O'r £1.998 miliwn a dalwyd i HoVDC o dan y Grant Datblygu Eiddo gwerth £2 filiwn, cynhaliwyd trafodion gwerth cyfanswm o £1.643 miliwn (dros 80 y cant) gyda neu drwy gwmnïau a chanddynt gysylltiadau â HoVDC. Talwyd £2.342 miliwn arall (ychydig o dan 40 y cant) o'r £6.523 miliwn yn uniongyrchol i gyflenwyr HoVDC o dan y cytundeb gwarant benthyciad i gwmnïau a chanddynt gysylltiadau â HoVDC.

**25.** Roedd y Pwyllgor yn bryderus o ganfod bod canran mor uchel o'r ddwy ffrwd gyllid hyn wedi cael ei dalu i gwmnïau a chanddynt gysylltiadau â HoVDC. Nododd Cymal 18 o'r telerau a'r amodau ar gyfer y Grant Datblygu Eiddo "You [HoVDC] must buy all goods and services... in a competitive and sustainable way

---

<sup>7</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>8</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

so as to demonstrate that you have achieved best value in the use of public funds”.<sup>9</sup>

**26.** Eglurodd James Price nad oedd hyn o reidrwydd yn gofyn am ymarfer tendro cystadleuol oherwydd:

“Our definition of ‘competitive’ is just that. They need to be able to demonstrate that what they have purchased represents competitive rates, not necessarily that they have gone through a competitive procurement. They are different things. The only time we would make people adhere to a competitive procurement process, i.e. an OJEU process, is if European funding was in the mix.”<sup>10</sup>

**27.** Fodd bynnag, canfu'r Archwilydd Cyffredinol nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un o'r £2 filiwn o wasanaethau a ddarparwyd o dan y Grant Datblygu Eiddo wedi bod yn destun cystadleuaeth neu gymhariaeth o ran gwerth am arian. Ni nododd Llywodraeth Cymru unrhyw ofynion gwerth am arian fel amod o dan y cytundeb gwarant benthyciad. O dan y cytundeb hwn, caniataodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £6.5 miliwn o daliadau i gyflenwyr.

**28.** Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl, ar y lleiaf, i'r gofyniad i gyflawni'r gwerth gorau posibl am arian fod yn amod ar gyfer unrhyw gyllid a ddarperir. Dywedodd Tracey Mayes, Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod canllawiau Llywodraeth Cymru i'w swyddogion wedi cael eu diweddarau ers hynny er mwyn sicrhau eu bod, yn y dyfodol, yn ymwybodol o'r angen i wirio:

“... if there is a related company, why it's a related company and whether the service they're providing is providing value for money.”<sup>11</sup>

**29.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth lafar yn cwestiynu nifer y cyflenwyr cysylltiedig, ac nad oedd ei swyddogion yn ymwybodol o gwbl o lawer o'r perthnasoedd nes i'r Archwilydd Cyffredinol dynnu sylw atynt yn ystod ei waith. Nododd James Price:

---

<sup>9</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 3.12](#), Ebrill 2016

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 127

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 153

“The WAO figure, I believe, is of nine related companies or individuals. We don’t believe it’s as high as nine, but we’re not disputing the fact that there are related parties.”<sup>12</sup>

**30.** Cadarnhawyd y ffigur a ddyfynnwyd yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol gyda HoVDC ei hun cyn cyhoeddi’r adroddiad, ac felly mae’n syndod bod y diffiniadau sydd ar glawr gan Lywodraeth Cymru wedi methu â nodi pob un o’r cwmnïau cysylltiedig. Nododd James Price:

“Er bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi cwmnïau sydd â chysylltiadau â HOVDC, mae rhai o’r cysylltiadau’n ehangach na’r hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn gwmni neu’n unigolyn cysylltiedig.

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn rhestr Swyddfa Archwilio Cymru o gwmnïau sydd â rhai cysylltiadau ehangach â HOVDC, nid oes un o’r cwmnïau a restrir isod yn rhannu cyfarwyddwyr neu gyfranddalwyr â HOVDC. Felly ni fyddent yn gallu cael effaith ar waith HOVDC o ddydd i ddydd:

- Shaun Meadows Marketing Ltd;
- Barton Communications Ltd; and
- Kalergo Ltd.”<sup>13</sup>

**31.** Mae’r Pwyllgor yn pryderu y byddai Llywodraeth Cymru yn eithrio cwmnïau megis Kalergo Ltd o’i ystyriaeth (cwmni a gafodd daliadau cadw o dan drefniant gwarant benthyciad Llywodraeth Cymru o bron i £97,000 yn erbyn anfonebau nad oeddent yn cynnwys manylion am gostau a gwasanaethau), o ystyried bod unig swyddog a chyfranddeiliad Kalergo hefyd yn Brif Swyddog Cyllid Aventa.

**32.** Yn ei hymateb, dadleuodd Llywodraeth Cymru nad ydynt yn “ystyried o reidrwydd bod gan gyfarwyddwyr neu gyfranddalwyr cwmnïau cysylltiedig y gallu i ddylanwadu ar y cwmni sy’n cael ei ariannu yn ôl y drefn arferol ac felly, ni fyddem yn edrych arnynt. Byddem yn canolbwyntio yn hytrach ar yr unigolion sydd â’r gallu uniongyrchol i ddylanwadu”.<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 111

<sup>13</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>14</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

**33.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod yr ymateb hwn yn awgrymu cryn dipyn o naifrwydd neu hunanfodlonrwydd ar ran Llywodraeth Cymru ynglŷn â chysylltiadau busnes yn y sector preifat ac achosion o wrthdaro buddiannau. Nid p'un a oedd y cwmnïau a'r unigolion cysylltiedig o reidrwydd yn gallu dylanwadu ar HoVDC yn gyffredinol yw'r mater dan sylw yma. Y pwynt hollbwysig yw y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cymryd camau priodol i sicrhau gwerth am arian cyn cymeradwyo taliadau i'r cwmnïau hyn oherwydd bod ganddynt gysylltiadau â HoVDC.

**34.** Nododd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

“Mae'n rhaid i unrhyw gwmni [perthynol] sy'n cael ei ddefnyddio fel cyflenwr ddarparu ei wasanaethau ar sail hyd braich, a dangos gwerth am arian hefyd.”<sup>15</sup>

**35.** Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn wir mewn perthynas â'i chymorth ariannol i brosiect CoW.

**36.** Er ein bod yn cydnabod nad yw'n rhesymol cael tendrau llawn ar gyfer pob agwedd ar y math hwn o gyllid, ni allwn dderbyn nad yw gwerth am arian yn cael ei sicrhau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn deall yn ddigonol y prosiectau y mae'n dewis eu cefnogi, gan gynnwys contractwyr a chyflenwyr perthynol. Yna dylai fabwysiadu a chymhwyso rheolaethau yn ddeallus ac yn hyblyg, yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y prosiect, i liniaru'r risgiau dan sylw. Yn yr achos hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o lawer o'r cwmnïau cysylltiedig, ac felly ni fyddai wedi gallu gwirio gwerth am arian y defnydd o gyllid yn yr achos hwn. Mae naw o gwmnïau cysylltiedig sy'n derbyn dros 80 y cant o ddyfarniad grant a bron i 40 y cant o gyfleuster benthygiad yn codi rhai cwestiynau arwyddocaol ac mae'n annerbyniol na wnaeth Llywodraeth Cymru brofi'n gadarn y gwerth am arian i'r trethdalwr am y buddsoddiad sylweddol hwn o arian cyhoeddus.

Taliadau Cadw Misol a dalwyd i Aventa a chwmnïau eraill

---

**37.** Yn ogystal â diffyg tystiolaeth o gystadleuaeth, canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod llawer o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau cysylltiedig yn daliadau cadw misol, heb unrhyw dystiolaeth bod gwasanaethau gwirioneddol yn cael eu darparu.<sup>16</sup> Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth yr Archwilydd Cyffredinol:

---

<sup>15</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>16</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraffau 3.22-3.34](#), Ebrill 2016

“(b) roedd swyddogion wedi bodloni eu hunain ynghylch gwerth am arian ar lefel y prosiect cyfan, yn hytrach nag ar lefel contractau gwasanaeth unigol.”<sup>17</sup>

**38.** O ystyried y symiau sylweddol o arian a dalwyd drwy daliadau cadw i gwmnïau a chanddynt berthynas â HoVDC, roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd unrhyw dystiolaeth o werth am arian mewn perthynas â thaliadau cadw misol. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Fel cwmni un diben, nid oes gan HOVDC unrhyw weithwyr cyflogedig uniongyrchol, ac mae’n dibynnu ar osod ei holl swyddogaethau gweithredol ar gontract.

Nid yw’n anarferol bod cynghorwyr proffesiynol yn codi ffioedd ar sail blaendaliadau misol yn hytrach nag ar sail cyfradd fesul awr neu fesul dydd. Mae hwn yn arfer cyffredin yn y farchnad fasnachol.”<sup>18</sup>

**39.** Fel enghraifft o’r taliad cadw misol, cafodd Aventa (cwmni ar wahân sydd ym mherchnogaeth lwyr cyfranddeiliad rheoli a Phrif Weithredwr HoVDC, Mr Michael Carrick) daliad cadw o £42,500 y mis. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod hyn yn seiliedig ar:

“... cyfartaledd o 20 o ddiwrnodau gwaith y mis, cost y blaendal hwn oedd £2,125 y dydd. Roedd cytundeb gwasanaeth Aventa gyda’r HOVDC ar gyfer darparu gwasanaethau gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd gan Michael Carrick. Dywedodd HOVDC wrthym fod y tâl cadw hefyd yn cwmpasu costau darparu gwasanaethau gan nifer o unigolion â gwybodaeth arbenigol yn y meysydd canlynol:

- Ynni adnewyddadwy
- Technoleg a dadansoddeg data
- Codi cyfalaf
- Cyllid ac adrodd
- Cyfathrebu a marchnata

---

<sup>17</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 3.25](#), Ebrill 2016

<sup>18</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

- Adeiladu a negodi
- Ymchwil fasnachol
- Modelu ariannol.<sup>19</sup>

**40.** Nid yw'r rhestr hon gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r gwasanaethau a restrwyd mewn gwybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan Mr Carrick i'r Archwilydd Cyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn synnu o nodi na ddarparodd Llywodraeth Cymru yr esboniad hwn o wasanaethau Aventa i'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod ei waith astudio. Mae hyn yn awgrymu'n gryf i ni bod y wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor hwn wedi'i pharatoi yn ôl-weithredol.

**41.** Roedd y Pwyllgor yn synnu ac yn pryderu bod Michael Carrick wedi llofnodi'r contract rhwng HoVDC ac Aventa ar ran y ddwy ochr. Esboniodd HoVDC y trefniant hwn i'r Archwilydd Cyffredinol fel dau endid corfforaethol a gytunodd ar gontract ar gyfer gwasanaethau. Roedd digwydd bod ganddynt gyfranddeiliad cyffredin y datgelwyd y potensial ar gyfer achosion o wrthdaro buddiannau.<sup>20</sup> Mae'r Pwyllgor yn derbyn nad yw hyn yn mynd yn groes i gyfraith cwmnïau neu gyfraith contractau. Fodd bynnag, mae'n dangos y berthynas fusnes agos iawn rhwng HoVDC ac Aventa. Mae hyn yn creu risgiau mewn perthynas â gwerth am arian - risgiau y credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol cyn cymeradwyo cymhwysedd y gwariant a chytuno ar hawliadau am daliadau.

**42.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth bod HoVDC wedi dyfarnu contract gwasanaeth i Aventa yn dilyn proses gystadleuol.<sup>21</sup> Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod taliad cadw misol mor sylweddol wedi ei dalu fel rhan o'r broses hon a hynny, mae'n ymddangos, heb fawr ddim esboniad ynglŷn â'r hyn yr oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, ac nad oedd wedi bod yn destun unrhyw fath o broses dendro o gofio bod Mr Carrick, yn ei hanfod, wedi ymrwymo i gontract gydag ef ei hun.

---

<sup>19</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>20</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 3.27](#), Ebrill 2016

<sup>21</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 3.27](#), Ebrill 2016

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei rheolaethau i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus mewn perthynas â:

- Deall y berthynas rhwng y rhai sy'n derbyn cyllid a'u contractwyr a'u cyflenwyr;
- Cynnwys gofynion o fewn yr amodau cyllido i'r rhai sy'n derbyn cyllid roi rheolaethau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian gan eu contractwyr a'u cyflenwyr, ac i ddarparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru am eu gweithrediad effeithiol, yn arbennig ar gyfer:
  - Hawliadau sy'n ymwneud â thaliadau am wasanaethau ar sail taliadau cadw, i sicrhau bod y gwasanaethau wedi cael eu darparu;
  - Hawliadau am daliad sy'n ymwneud â chwmnïau neu unigolion sy'n bartïon cysylltiedig, p'un a ydynt yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hawlydd ai peidio neu ar y ffordd y caiff y prosiect a ariennir ei gynnal.

## Caffael FTR

**43.** Un o'r mecanweithiau cymorth cyllido sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw ei Grant Datblygu Eiddo. Cynllun grant Llywodraeth Cymru yw hwn y gall y sector preifat ei ddefnyddio i ariannu prynu tir ac eiddo er mwyn ysgogi datblygiad economaidd. Mae hefyd yn cwmpasu costau cysylltiedig, gan gynnwys y ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â phryniannau o'r fath. Fel rhan o'r cyllid cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru, dyfarnodd Llywodraeth Cymru Grant Datblygu Eiddo gwerth £2 filiwn i HoVDC yn ystod hydref 2012. Defnyddiodd HoVDC £0.3 miliwn o'r grant hwn i gaffael FTR, cwmni peirianeg beiciau modur yn Swydd Buckingham sydd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ers hynny (mis Hydref 2016).

**44.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu unrhyw ddogfennaeth gyfoes yn esbonio pam y bu i HoVDC gaffael FTR na chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i hynny gael ei gynnwys yn y grant. Ym mis Tachwedd 2016, anfonodd Michael Carrick nodyn i Lywodraeth Cymru lle y rhoddodd resymau HoVDC dros gaffael FTR (roedd hyn bedair blynedd ar ôl dyfarnu'r grant a mis ar ôl i'r cwmni gael ei ddiddymu). Roedd y nodyn yn nodi bod HoVDC wedi bwriadu manteisio ar berthnasoedd FTR gyda MotoGP ac yn y pen draw ailsefydlu'r busnes yng Nghymru.<sup>22</sup> Fodd bynnag, nid

---

<sup>22</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 4.6](#), Ebrill 2016

oedd yr un o'r rhesymau a nodwyd yn cyd-fynd ag amcanion cymeradwy y cynllun Grant Datblygu Eiddo, nac yn wir â gofynion prynu safle Rassau ar gyfer y prosiect CoW yr oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu'r cyllid ar ei gyfer.<sup>23</sup>

**45.** Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu egluro mewn ffordd a oedd yn ei fodloni pam y cymeradwyodd elfen o arian grant a fwriadwyd ar gyfer datblygu eiddo ym Mlaenau Gwent i'w ddefnyddio gan HoVDC i gaffael cwmni peirianeg beiciau modur yn Swydd Buckingham.<sup>24</sup> Dywed yr adroddiad archwilio nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni unrhyw broses diwydrwydd dyladwy nac ychwaith unrhyw ymholiadau eraill i sefyllfa ariannol FTR.<sup>25</sup>

**46.** Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch prynu FTR fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo, yn enwedig diffyg dogfennaeth briodol ynghylch y penderfyniad i gynnwys y pryniant hwn fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo. Nododd Llywodraeth Cymru ei bod wedi defnyddio'r Grant Datblygu Eiddo oherwydd:

“Mae Cylchffordd Cymru yn brosiect datblygu eiddo unigryw ac roedd y cwmni yn chwilio am gymorth i ddatblygu cynnig busnes er mwyn sicrhau cyllid gan y sector preifat a chyflwyno cais cynllunio. Er nad yw Cylchffordd Cymru yn brosiect eiddo safonol, mae'n cyd-fynd â datblygu eiddo yn fwy nag unrhyw weithgaredd arall. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ddarparu grantiau at unrhyw ddiben, ond y dewis sy'n cael ei ffafrio, os oes modd, yw cynllun grant safonol.”<sup>26</sup>

**47.** Esboniodd James Price:

“... particularly when it comes to inward investment or big regeneration or big capital schemes, the rules of grants, which are primarily around state aid, are not hard and fast and with legal advice and with wider interpretation can be interpreted broadly on occasions.”<sup>27</sup>

**48.** Tybir bod y cyfiawnhad bod gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddarparu grantiau at unrhyw ddiben ond ei bod yn well, lle y bo'n bosibl, defnyddio cynllun

---

<sup>23</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraffau 4.4 - 4.7](#), Ebrill 2016

<sup>24</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraffau 4.1 - 4.7](#), Ebrill 2016

<sup>25</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 4.12](#), Ebrill 2016

<sup>26</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 70



grant safonol, yn seiliedig ar Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i hybu neu wella llesiant economaidd Cymru.<sup>28</sup>

**49.** Er ein bod yn cytuno ei bod yn bwysig bod hyblygrwydd o fewn y system i ddarparu ar gyfer cynlluniau nad ydynt o bosibl yn ffitio'n daclus mewn amlen grant sefydledig, mae risgiau'n gysylltiedig â dull o'r fath. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r cynllun Grant Datblygu Eiddo i roi Cymorth Gwladwriaethol y gellir ei ganiatáu (a fyddai, o dan gyfraith cystadleuaeth yr UE, fel arall yn cynrychioli cymhorthdal gwladwriaethol anghyfreithlon). Fodd bynnag, mae'r amddiffyniad cyfreithiol hwn yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau'r UE wneud grantiau sy'n gyson â dibenion penodol y cynllun Grant Datblygu Eiddo. Mae grant nad yw'n dod o fewn dibenion y cynllun Grant Datblygu Eiddo mewn perygl o gael ei ystyried yn Gymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon gan y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw cyfraith weinyddol y DU yn caniatáu i weinidogion, na swyddogion sy'n gweithredu ar eu rhan, wneud penderfyniadau anghyfreithlon.

**50.** Er ein bod yn gwerthfawrogi pam yr ystyriwyd bod y Grant Datblygu Eiddo yn fecanwaith priodol i gynorthwyo gyda chaffael y prif safle, ni allwn weld unrhyw gyfiawnhad sy'n cyd-fynd â dibenion y grant i FTR gael ei gynnwys yn y Grant Datblygu Eiddo, heb sôn am amseriad y pryniant hwn.

**51.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 26 Mehefin 2017, gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru beth oedd y sail resymegol dros gynnwys hyn yn y Grant Datblygu Eiddo ac a ellid ystyried bod y gwariant ar FTR yn werth am arian. Dywedodd James Price wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried bod prynu FTR yn werth am arian. Fodd bynnag, mewn gohebiaeth ysgrifenedig wedyn, daethpwyd i'r casgliad:

“Yn anffodus, oherwydd yr oedi yn sgil methiant HOVDC i sicrhau'r buddsoddiad gofynnol gan y sector preifat, nid oedd modd bwrw ymlaen â'r cynllun arfaethedig i ddatblygu beic modur 'Cymreig', ac aeth cwmni FTR i ddwylo'r gweinyddwyr.

O ganlyniad i'r amgylchiadau annisgwyl hyn, nid yw'r broses benodol o gynnwys FTR fel rhan o'r costau cymwys ar gyfer y Grant Datblygu Eiddo wedi cynrychioli gwerth am arian yn y sefyllfa benodol hon.”<sup>29</sup>

---

<sup>28</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006

<sup>29</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

**52.** Hefyd, trafododd y Pwyllgor sail resymegol Llywodraeth Cymru dros gynnwys prynu FTR yng ngham cyntaf y Grant Datblygu Eiddo, yn hytrach nag yn ddiweddarach yn y gwaith o adeiladu'r gylchffordd a datblygiad cyfagos y parc busnes technoleg modurol arfaethedig. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, eglurodd James Price:

“Y sail resymegol ar gyfer cynnwys FTR fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo oedd y ffaith y byddai'r cwmni yn symud i safle Cylchffordd Cymru a bod yn sbardun i ddatblygu clwstwr o gwmnïau tebyg a allai ddefnyddio'r gylchffordd. Pe bai HOVDC wedi gallu bwrw ymlaen â'r prosiect yn unol â'r amserlen a awgrymwyd yn wreiddiol, mae'n bosibl y byddai FTR wedi gallu adleoli i Gymru yn unol â chynnig HOVDC.

Ystyriwyd bod prynu FTR yn cyd-fynd â Cham 1 o brosiect Cylchffordd Cymru gan fod swyddogion wedi cytuno wrth drafod y Grant Datblygu Eiddo bod prynu FTR yn elfen allweddol o ddatblygu'r cynnig busnes, yn enwedig o safbwynt bod yn sbardun i ddatblygu'r clwstwr Rasio Cerbydau a'r Sector Uwch Beirianeg a dargedwyd. Byddai'r budd mwyaf yn deillio o'r clwstwr hwn o safbwynt yr effaith ar swyddi lleol ac economi Cymru yn ehangach

Pe bai'r broses o brynu FTR wedi'i gohirio tan Gam 2 o'r prosiect, byddai'r achos busnes a oedd yn cael ei ddatblygu i gael hyd i arian sector preifat fel rhan o Gam 1 wedi'i wanhau. Drwy gynnwys FTR yn y rhan hon o'r prosiect, roedd modd dangos bod yna ddiddordeb eisoes ynghyd â lefel o ymrwymiad i Gylchffordd Cymru a'r parc technoleg cysylltiedig.”<sup>30</sup>

**53.** Yng ngoleuni'r esboniad hwn, mae'r Pwyllgor yn synnu nad oedd dyfarnu'r Grant Datblygu Eiddo yn cynnwys unrhyw ofyniad i FTR adleoli i Gymru, neu iddo gadw neu greu swyddi yng Nghymru.

**54.** Pan ofynnwyd i James Price a oedd o'r farn bod cynnwys prynu FTR o fewn y Grant Datblygu Eiddo yn anghonfensiynol, eglurodd James Price:

“...at the time that that decision was taken, everyone believed that that was the most appropriate form of finance to use for that particular part of the project. Different types of finance were explored, including a loan

---

<sup>30</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

and other grant mechanisms, but that was the particular grant mechanism that was alighted on.”<sup>51</sup>

**55.** Cytunodd Mr Price nad oedd hyn yn arferol, gan ddweud:

“...certainly not the core of what you would normally use that grant for, but I am content that not just the individuals who were involved at the centre of that decision, but the wider set of individuals, including the central finance team of the Welsh Government, considered this and considered different mechanisms, and concluded that that was the best mechanism that we had to deliver that particular part of the project.”<sup>52</sup>

**56.** Yn dilyn y sesiwn dystioaleth ar 26 Mehefin 2017, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o eglurhad ynghylch a fyddai cynnwys eitem gwerth £300,000 fel FTR, y nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n cyd-fynd â dibenion craidd cynllun grant, yn cael ei ystyried yn eithriadol. Nododd James Price:

“Wrth edrych ar y mater ar wahân, rydym yn deall pam y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried bod prynu FTR yn weithred eithriadol. Fodd bynnag, roedd darparu'r Grant Datblygu Eiddo yn canolbwyntio ar alluogi HOVDC i ymgymryd â phroses datblygu eiddo i gwblhau'r agweddau ariannol: caniatâd cynllunio a chodi arian oedd yr ysgogwyr llwyddiant allweddol. Ar y pryd, roedd swyddogion yn ystyried bod prynu FTR yn cyd-fynd ag amcanion datblygiadau HOVDC a oedd yn cael eu hariannu gan y Grant Datblygu Eiddo, gan ddod i'r casgliad nad oedd prynu FTR yn eithriadol.

Mae'r broses graffu ar geisiadau'r Grant Datblygu Eiddo wedi'i gwella'n sylweddol ers dyfarnu'r cyllid i HOVDC. Erbyn hyn, byddai angen i gais am gyllid Grant Datblygu Eiddo gwerth £2 filiwn gael ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo (PLT), y Panel Buddsoddi, a Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB) cyn bod argymhelliad yn cael ei wneud i'r Gweinidog perthnasol. Mae'r lefel graffu hon yn sylweddol uwch ac mae'n debygol o sicrhau bod eitemau posibl o natur eithriadol yn cael eu trafod a'u hystyried yn llawn.

Felly, pe bai cyllid y Grant Datblygu Eiddo ar gyfer HOVDC yn cael ei ystyried o dan y broses newydd hon, mae'n debygol y byddai prynu FTR

---

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 47

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 47

yn cael ei nodi'n weithred eithriadol ac y byddai unrhyw argymhelliad i'r Gweinidog perthnasol yn cyfeirio at hynny.”<sup>33</sup>

**57.** Pan ofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch sut yr aethpwyd ati i graffu ar y penderfyniad, eglurodd Mr Price:

“Mewn perthynas â'r eitem FTR, cwestiynwyd yn llafar sail resymegol y pryniant cyn cytuno y byddai costau'r pryniant yn cael eu cynnwys fel gwariant cymwys.

Yn sgil craffu ar y cais, ni chaniatawyd rhan o'r gwariant yn ymwneud ag FTR gan ei fod yn ymwneud â chyfalaf gweithio yn hytrach na'r gwariant cymwys ar gyfer y pryniant.”<sup>34</sup>

**58.** Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod “Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen mwy o waith craffu yn ystod y cam arfarnu cyn cynnwys pryniant FTR yng nghostau cymwys y Grant Datblygu Eiddo” a bod “lefel y gwaith craffu yn sylweddol uwch erbyn hyn”.<sup>35</sup>

**59.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd fod y trafodiad FTR wedi digwydd ar 28 Medi 2012 cyn i'r Grant Datblygu Eiddo gael ei ddyfarnu ar 11 Hydref 2012, ond bod dyddiad dechrau cyllid y Grant Datblygu Eiddo wedi ei ôl-ddyddio gan swyddogion i 1 Awst 2012 ar gais HoVDC. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Llywodraeth Cymru wedi adolygu contract gwerthu/prynu FTR cyn cymeradwyo cynnwys FTR fel gwariant cymwys yn erbyn y Grant Datblygu Eiddo, a dywedwyd wrtho:

“Cafodd y cyllid Grant Datblygu Eiddo i HOVDC ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar 9 Awst 2012. Ar ôl cymeradwyaeth y Gweinidog, aeth swyddogion ati i ddatblygu'r llythyr dyfarnu gyda'r gwasanaethau cyfreithiol, gan gyfarfod â HOVDC i egluro manylion y llythyr a'r amodau cysylltiedig. Cafodd y llythyr dyfarnu terfynol ei gyflwyno i HOVDC ar 11 Hydref 2012 a'i lofnodi gan y cwmni ar 16 Hydref 2012.

Nid yw'n anarferol i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyllido a nodir yn y llythyrau dyfarnu fod yr un fath â'r dyddiad cymeradwyo, sef yn yr achos hwn 9 Awst 2012. Yn yr achos hwn, nododd y llythyr dyfarnu mai 1 Awst 2012 oedd dyddiad dechrau'r cyfnod cyllido, hynny ar gais HOVDC. Mae newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ôl disgrisiwn swyddogion

---

<sup>33</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>34</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>35</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

perthnasol cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r cwmni sy'n gofyn am y cyllid yn derbyn y risg o wneud unrhyw waith rhwng dyddiad dechrau'r cyfnod cyllido a'r dyddiad cymeradwyo.

Yn yr achos hwn, ni wnaeth HOVDC gynnwys unrhyw wariant cyn 9 Awst yn unrhyw un o'r ceisiadau a wnaed yn erbyn cynnig y Grant Datblygu Eiddo.

Ni allaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu contract gwerthu/prynu FTR cyn cynnwys costau prynu FTR yng nghostau cymwys y grant. Cafwyd digon o dystiolaeth gan Shoosmiths, oedd yn gweithredu ar ran HOVDC, i brofi bod y contract wedi'i arwyddo a'i fod yn ei le cyn talu'r hawliad. Er hynny, yn fy marn i, dylai'r contract FTR fod wedi'i adolygu cyn i'r weithred o brynu FTR gael ei chynnwys fel gwariant cymwys, neu o leiaf cyn talu'r hawliad.”<sup>36</sup>

**60.** O ystyried canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynnwys FTR fel gwariant cymwys o fewn y grant, ymchwiliodd y Pwyllgor i a oedd y Gweinidog Busnes, Menter Technoleg a Gwyddoniaeth ar y pryd yn ymwybodol bod hyn wedi'i gynnwys yn y grant. Dywedodd Tracey Mayes o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

“We have no paperwork trail that says that the Minister was aware.”<sup>37</sup>

Ychwanegodd James Price:

“It is conceivable that the Minister would not have known about that particular use of that particular grant.”<sup>38</sup>

**61.** Roedd y Pwyllgor yn synnu nad oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r penderfyniad hwn ai peidio. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2017, myfyriodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd a Ms Mayes ar y drefn cadw cofnodion gan ddweud y dylai swyddogion gadw cofnodion manwl o'r holl gyfarfodydd a sgysiau gydag ymgeiswyr am gyllid<sup>39</sup> ac mai arfer da fyddai'r lefel sylfaenol sy'n angenrheidiol i ddangos pam y gwnaed yr

---

<sup>36</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 59

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 63

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 337

hyn a wnaed<sup>40</sup> ac ni ddigwyddodd hynny yn yr achos hwn. Awgrymodd James Price:

“...ymddengys mai diffyg gweinyddol a oedd yn gyfrifol am hynny, yn bennaf oherwydd y lefel uchel o wybodaeth gymhleth a oedd yn cael ei rhannu mewn nifer sylweddol o gyfarfodydd ac mewn sgysiau eraill rhwng swyddogion a HOVDC; nid yw’n adlewyrchu penderfyniad ymwybodol ar ran swyddogion i beidio â chadw cofnod priodol o’r broses o wneud penderfyniadau neu gadw dogfennau cyfoes.”<sup>41</sup>

**62.** Ceisiodd roi sicrwydd i’r Pwyllgor fodd bynnag, gan ddweud:

“Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru a’r adran wedi canolbwyntio mwy ar yr angen i gadw cofnodion priodol er mwyn dangos sail resymegol penderfyniadau sy’n cael eu hargymell a’u gwneud, er enghraifft, rwyf wedi cysylltu â holl swyddogion ESNR i’w hysbysu o bwysigrwydd cadw cofnodion cywir ac mae’r mater wedi’i drafod hefyd yng nghyfarfodydd y tîm rheoli ac ym mhob digwyddiad ar gyfer staff.”<sup>42</sup>

**63.** Mae’r Pwyllgor yn synnu ei bod yn annhebygol, i bob golwg, bod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y pryd wedi’i hysbysu am y penderfyniad ac nad oes cofnodion o unrhyw drafodaethau.

**64.** Mae’r Pwyllgor hefyd yn pryderu’n fawr bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod Seneddol, wedi cyhoeddi datganiad i’r wasg a oedd yn anghywir a chamarweiniol ym mis Ebrill 2016, a oedd yn nodi “...na ddefnyddiwyd unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru i brynu a thuag at gostau rhedeg parhaus FTR Moto Ltd gan HoVDC”.<sup>43</sup> Roedd y datganiad hefyd wedi hepgor y grant £2 filiwn yn gyfan gwbl (a oedd wedi cynnwys £0.3 miliwn o wariant cymeradwy ar gyfer caffael FTR) o gyfanswm y cyllid yr oedd Llywodraeth Cymru wedi’i roi i HoVDC. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn synnu’n fawr at y camgymeriadau hyn oherwydd bod y datganiad i’r wasg wedi deillio o’r un tîm o swyddogion yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am gytuno ar y gwariant cymwys ac awdurdodi’r taliad hawliad grant i HoVDC ar gyfer y broses gaffael.<sup>44</sup>

---

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 343

<sup>41</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>42</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>43</sup> **Hysbysiad i’r Wasg gan Lywodraeth Cymru**, Ebrill 2016

<sup>44</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, Paragraffau 4.13 - 4.1, Ebrill 2016

**65.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod penderfyniad cyllido cyfan Llywodraeth Cymru i HoVDC brynu FTR yn eithriadol, yn anghonfensiynol a bron yn anesboniadwy. Byddem yn disgwyl i benderfyniad sydd mor bell y tu hwnt i ddiffiniad y cynllun Grant Datblygu Eiddo â phrynu cwmni gweithgynhyrchu beiciau modur yn Lloegr gydag arian cyhoeddus a ddarparwyd i gaffael a datblygu tir ym Mlaenau Gwent, gael ei gymeradwyo yn gyntaf gan y Gweinidog dan sylw, ac yn ail i'r penderfyniad hwn gael ei ddogfennu'n llawn.

**66.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y disgrisiwn a ddefnyddiwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn, a hynny yn ôl pob tebyg heb unrhyw oruchwyliaeth weinidogol, yn amlygu Llywodraeth Cymru i lefel annerbyniol o risg o her gyfreithiol sy'n cael ei chymhlethu gan absenoldeb cofnodion priodol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod y trefniadau cyllido ar gyfer prynu FTR yn cael eu defnyddio fel astudiaeth achos at ddibenion hyfforddiant mewnol gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y penderfyniadau anghonfensiynol iawn a wnaed ar lefel swyddogol, y diffyg dogfennaeth ategol a methiant swyddogion i ofyn am y gymeradwyaeth ofynnol gan eu Gweinidog a chael y gymeradwyaeth honno.

## Trefniant Caffael Amodol ar gyfer safle Cylchffordd Cymru

**67.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol nad oedd trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodi taliadau a hawliawyd gan HoVDC yn ddigon cadarn. Nododd ei dîm astudiaeth daliad hawliad grant o £100,000 a oedd yn cynrychioli blaendal am drefniant amodol i brynu'r tir ar gyfer y prif safle, a ddaliwyd gan gyfreithiwr y gwerthwr. Byddai'r blaendal yn cael ei dalu i'r gwerthwr gan y cyfreithiwr pe bai'r gwerthiant (sy'n amodol ar brosiect CoW yn codi'r cyllid angenrheidiol i fwrw ymlaen ag ef) yn cael ei gwblhau. Mae blaendaliadau o'r fath yn aml yn gymwys ar gyfer grant, ond ni fyddai modd eu hawlio fel arfer nes i'r arian gael ei dalu i'r gwerthwr. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, cymeradwyodd a thalodd Llywodraeth Cymru hawliad HoVDC am y blaendal cyn iddo gael ei dalu i'r gwerthwr.

**68.** Pe bai Llywodraeth Cymru wedi hynny yn penderfynu peidio â darparu'r gwarantau ariannol angenrheidiol er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo, ni fyddai'r trefniant prynu tir wedi'i gwblhau a byddai'r blaendal, yr oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei ad-dalu i HoVDC, yn cael ei ddychwelyd i HoVDC.

**69.** Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, eglurodd James Price fod yr arian hwn yn cael ei dalu i gyfrif ysgrow,<sup>45</sup> ac nad oedd yn siŵr, ar ôl edrych ar y manylion a siarad â chydweithwyr llywodraethu mewnol, bod y broses hon mor anghyffredin ag y mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei awgrymu.<sup>46</sup>

**70.** Esboniodd Tracey Mayes:

“The nature of property development grants means that we can use escrow accounts, and it’s not a common occurrence, but it’s not a rarity either. It is something that does happen, and we do pay through those escrow accounts. I agree with the wording—‘not normally eligible’—because it’s only in specific instances, but in this instance we believe it was correct.”<sup>47</sup>

**71.** Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw blaendal a ddelir mewn cyfrif ysgrow yn anarferol mewn trafodion gwerthiannau eiddo amodol, nodwyd hefyd nad yw symiau o’r fath yn wariant y gellir ei hawlio tan iddynt gael eu talu i’r gwerthwr a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam, yn yr achos hwn, bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried bod y taliad hawliad grant hwn yn gywir. Nododd James Price:

“Nododd llythyr dyfarnu’r Grant Datblygu Eiddo y byddai HOVDC yn cael ei dalu ar sail system ad-dalu, sy’n golygu bod y taliad i gyflenwyr ac ati wedi gorfod gadael cyfrif banc HOVDC. Fel arfer mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod taliad i gyfrif ysgrow yn gymwys ar gyfer grant gan fod y taliad wedi’i ad-dalu gan dderbynnydd y grant. Mewn nifer o achosion, mae taliadau grant wedi’u gwneud ac mae’r gwariant wedi gadael cyfrif derbynnydd y grant a’i roi mewn cyfrif ysgrow.

Yn yr achos hwn, gofynnodd y tîm cyllid am wybodaeth ychwanegol benodol er mwyn dangos bod yr arian wedi’i ad-dalu gan HOVDC. Cafwyd cadarnhad gan gyfreithwyr HOVDC bod y swm o £200,000 ar gyfer y tir wedi’i drosglwyddo i gyfreithiwr y tîrfeddiannwr ar 17 Rhagfyr 2012. Yn unol â’r contract rhwng HOVDC a’r tîrfeddiannwr, cafodd swm o £100,000 ei gadw gan gyfreithiwr y tîrfeddiannwr (yn y cyfrif ysgrow) fel blaendal, a thalwyd y £100,000 arall i’r tîrfeddiannwr.

---

<sup>45</sup> Cyfrif banc y rhoddir arian ynddo er mwyn iddo fod ar gael yw cyfrif ysgrow, ond dim ond os caiff telerau ac amodau penodol eu bodloni y gellir tynnu’r arian hwnnw i lawr

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 305

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 317



Felly, roedd swyddogion yn fodlon bod HOVDC wedi ad-dalu'r swm o £200,000 yn ei gyfanrwydd, ac felly roedd yn elfen gymwys o'r cais am daliad."<sup>48</sup>

**72.** Ymddengys i ni fod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhoi darpariaethau cytundebol neu ddarpariaethau digonol ar waith i sicrhau y byddai'r £100,000 yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru gan HoVDC pe na bai'r gwerthiant amodol yn mynd rhagddo.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei bod wedi adennill y £100,000 o'r cyfrif ysgrow.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofyniad cytundebol yn cael ei gynnwys ar gyfer taliadau yn y dyfodol a wneir i dalu am wariant cymwys sy'n gysylltiedig â chyfrifon ysgrow os bydd prosiect yn methu.

## Y cytundeb gwarant benthyciad

**73.** Roedd y cytundeb gwarant benthyciad yn cynnwys yr amod y dylai HoVDC ddarparu datganiadau ariannol archwiliedig i Lywodraeth Cymru. Roedd y Grant Datblygu Eiddo yn gofyn am fynediad i wybodaeth ariannol ar gais ond nid oedd yn nodi unrhyw ofyniad am archwiliad allanol.

**74.** Mae trosiant blynyddol HoVDC yn is na gofyniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o £6.5 miliwn i gwmnïau gyflwyno cyfrifon elw a cholled archwiliedig yn annibynnol i Dŷ'r Cwmnïau. Fodd bynnag, gall cwmnïau bach ddewis cael eu harchwilio. Pan ystyriodd y Pwyllgor hyn, nid oedd yr un o'r cyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau gan HoVDC a'i gwmnïau perthynol wedi'u harchwilio. Yn ogystal, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod gan y gwahanol gwmnïau o fewn strwythur perchnogaeth HoVDC gyfnodau cyfrifyddu blynyddol gwahanol, gan wneud craffu allanol ar gyfrifon cwmnïau perthynol yn fwy anodd.

**75.** Pan ofynnwyd pam nad oedd cyfrifon HoVDC wedi'u harchwilio, dywedodd Tracy Mayes nad oedd yn ofynnol i gwmnïau o'r maint hwnnw wneud hynny o dan gyfraith cwmnïau. Roedd gan y Pwyllgor bryderon dybryd am hyn gan mai un o ofynion y cytundeb gwarant benthyciad oedd i HoVDC ddarparu datganiadau ariannol wedi'u harchwilio i Lywodraeth Cymru. Wrth egluro pam y gosodwyd yr amod hwnnw i ddarparu datganiadau ariannol archwiliedig, ond na chafodd ei orfodi wedyn, dywedodd James Price wrthym:

---

<sup>48</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

“Mae’r cytundeb gwarant benthyciad rhwng HOVDC a Gweinidogion Cymru yn datgan yng Nghynsail yr Amodau bod angen i HOVDC ddarparu copi o’i ‘audited financial statements for the period ending 31 May 2014’. Mae hwn yn amod bancio safonol ac roedd wedi’i gynnwys yn y cytundeb fel y gallai weithredu o dan delerau masnachol yn unol ag Egwyddorion Gweithredol Economi’r Farchnad (MEOP). O ystyried statws y cwmni, dylai’r amod fod wedi’i eirio’n well i ofyn am ddarparu cyfrifon statudol, gan nad oedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar HOVDC i ddarparu cyfrifon wedi’u harchwilio.

Lluniwyd y cytundeb gan y tîm cyfreithiol allanol a oedd yn cynghori Gweinidogion Cymru, a gofynnodd y tîm hwn i gyfreithwyr HOVDC am y dystiolaeth ar gyfer y Cynsail Amodau. Wedyn, cadarnhaodd cyfreithwyr HOVDC ar ffurf ysgrifenedig na allent ddarparu cyfrifon wedi’u harchwilio ar gyfer mis Mai 2014 gan nad oedd unrhyw ddatganiadau ariannol a archwiliwyd wedi’u paratoi ar gyfer HOVDC. Yn hytrach, derbyniodd ein cyfreithwyr ddatganiadau ariannol heb eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mai 2013. Hefyd, darparwyd cyfrifon rheoli a rhagolygon llif arian hyd at fis Rhagfyr 2014. O ystyried bod trefniadau ar waith i lofnodi’r cytundeb ym mis Gorffennaf 2014, nid oes syndod nad oedd cyfrifon ar gael ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2014.

Wedyn, hysbysodd ein cyfreithwyr y swyddogion fod HOVDC wedi darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd bod yr amod penodol hwn wedi’i fodloni, a’i fod wedi darparu copïau caled o’r dystiolaeth ar gyfer yr amod hwn ac amodau eraill.”<sup>49</sup>

**76.** Fel darparwr cyllid gall, a dylai, Llywodraeth Cymru gynnwys amodau rhesymol yn y dyfarniadau grant megis yr angen am ddatganiadau ariannol archwiliedig.

- Prin oedd yr wybodaeth am HoVDC a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru oherwydd: Bod HoVDC yn gwmni newydd heb unrhyw hanes masnachu blaenorol, a sefydlwyd at ddibenion y Prosiect;
- Nad oedd y gwahanol gwmnïau a oedd yn ymwneud â chyflawni’r prosiect yn gwbl weithredol ac roedd y strwythur yn dal i esblygu.

---

<sup>49</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

Rydym yn siomedig nad oedd y gofyniad hwn wedi'i orfodi gan Lywodraeth Cymru, am y cyfnod a grybwyllwyd neu yn wir am unrhyw gyfnod pan oedd y cwmni'n derbyn arian cyhoeddus. Mae'r gwiriad allanol hwn o'r cyfrifon yn hanfodol i ddarparu sicrwydd, yn enwedig mewn prosiectau fel Cylchffordd Cymru, lle ceir risg sylweddol neu symiau mawr o arian cyhoeddus.

**Argymhelliad 5.** Ar gyfer pob prosiect lle ceir risg sylweddol neu symiau mawr o arian, rydym yn argymhell bod gofyniad i ymgeiswyr ddewis i'w datganiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol yn cael ei gynnwys yn amodau cyllido Llywodraeth Cymru, a bod y telerau hyn yn cael eu gorfodi'n llym fel rhan o drefniadau monitro parhaus cadarn.

## Gwahanu Dyletswyddau

**77.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod:

“... swyddogion yn Llywodraeth Cymru a fu'n ymwneud â'r prosiect CoW drwy ddelio â'r ceisiadau am arian cyhoeddus, drafftio nodiadau briffio a rhoi cyngor i'r Gweinidog i sicrhau penderfyniadau cyllido, hefyd wedi chwarae rôl flaenllaw yn y broses o awdurdodi'r taliadau.”<sup>50</sup>

**78.** Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod prosesau priodol yn bodoli o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu. Roedd y Pwyllgor yn bryderus bod swyddog, ar 11 Ionawr 2013, wedi rhoi cyfarwyddyd i'w gydweithiwr yn yr adran gyllid i dalu hawliad grant, er nad oedd unrhyw swyddog o Lywodraeth Cymru wedi gweld y rhannau perthnasol o'r contract gwerthiant amodol, a bod swyddogion cyllid, yn gwbl briodol, wedi herio hyn pan gyflwynwyd yr hawliad ym mis Rhagfyr 2012. Wrth geisio cyfiawnhau i'r Pwyllgor sut roedd cyfarwyddyd y swyddog hwn a'i weithrediad yn dangos bod system briodol ar waith ar gyfer gwahanu dyletswyddau, dywedodd James Price:

“Yn yr achos hwn, roedd y tîm a oedd yn ymwneud â HOVDC yn rheolaidd wedi derbyn y cais am grant a'r dystiolaeth gysylltiedig gan y cwmni. Credwyd bod manylion y cais yn cadarnhau bod tystiolaeth o wariant wedi'i darparu yn unol â'r llythyr dyfarnu. Trosglwyddwyd y dystiolaeth a'r cadarnhad bod y cais yn ddilys i gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y tîm cyllid wedyn.

Yn unol â'i asesiad annibynnol o'r cais, roedd angen gwybodaeth ychwanegol gan HOVDC ar y tîm cyllid, gan gynnwys anfonebau TAW

---

<sup>50</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru, [Paragraff 3.35](#), Ebrill 2016

perthnasol a chadarnhad gan y cynrychiolwyr cyfreithiol perthnasol bod taliadau wedi'u gwneud. O ganlyniad, cafwyd gohebiaeth sylweddol ar ffurf e-bost rhwng swyddogion y ddau dîm er mwyn cadarnhau union natur y dystiolaeth i'w darparu. Cafodd y tîm a oedd yn ymwneud â'r cwmni afael ar y wybodaeth ychwanegol hon gan HOVDC, sy'n arfer cyffredin.

Ar ôl i HOVDC ddarparu'r wybodaeth ychwanegol, rhoddwyd y dystiolaeth i'r tîm cyllid i gael ei hystyried a'i chymeradwyo. Er bod yr e-bost gan y swyddogion a oedd yn ymwneud â chefnogi HOVDC a'i gais am gyllid yn datgan: 'I therefore would confirm my revised confirmation that the grant claim should be paid'. Argymhelliad oedd hwn, nid cyfarwyddyd. Fel y dangoswyd yn gynharach yn y trywydd e-bost, nid oedd y tîm cyllid yn fodlon cymeradwyo taliad heb dderbyn tystiolaeth ddigonol. Cymeradwywyd y taliad ar sail y ffaith fod tystiolaeth ddigonol wedi'i darparu i'r tîm cyllid er mwyn rhoi'r sicrwydd gofynnol iddo.

Er nad oedd unrhyw un o'r swyddogion a oedd yn ymwneud â'r prosesau hyn wedi gweld y contract gwerthiant amodol yn ei gyfarwydd, roedd tystiolaeth ddigonol wedi'i darparu i ddangos bod y contract wedi'i lofnodi a'i fod ar waith.

Felly, rwy'n fodlon bod y trywydd e-bost yn dangos bod dyletswyddau wedi'u gwahanu'n briodol.”<sup>51</sup>

**79.** Nid ydym yn cytuno â honiad y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol a ddywedodd bod modd dehongli: “I therefore would confirm my revised confirmation that the grant claim should be paid”,<sup>52</sup> mewn ymateb i her hollol briodol i ddarparu tystiolaeth ddogfennol bellach cyn gwneud y taliad, gan yr awdur neu'r derbynnydd fel dim ond argymhelliad. Ar sail y dystiolaeth hyd yma, barn y Pwyllgor hwn yw bod un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru wedi defnyddio grym ei swydd mewn modd amhriodol dros gydweithwyr yn yr adran gyllid i wneud taliad heb weld yr holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani, ac mae hyn yn gwbl annerbyniol.

**80.** Rydym yn credu bod hyn yn dangos nad yw'r mesurau sydd ar waith o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dyletswyddau wedi'u gwahanu rhwng

---

<sup>51</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>52</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

swyddogion sy'n ymwneud â noddi prosiectau ac awdurdodi hawliadau am daliadau yn ddigon cadarn i sicrhau nad oes modd eu diystyru'n ymarferol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei threfniadau er mwyn sicrhau bod modd i staff, pryd bynnag y bydd ganddynt bryderon am gyfarwyddiadau gan swyddogion awdurdodi, godi'r bryderon hynny gydag uwch reolwr annibynnol a bod yn hyderus i wneud hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

**81.** Cododd y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch sut yr ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**82.** Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a oedd yn mynegi syndod a siom ynghylch penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi ei adroddiad yn ystod y cyfnod cyn etholiad Seneddol San Steffan; a nododd nad oedd wedi cael digon o amser i ystyried ac ymateb i'r Adroddiad cyn ei gyhoeddi.<sup>53</sup>

**83.** Roedd ymateb dilynol i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad gan Adam Price AC yn egluro bod swyddogion yn gwybod am y bwriad i gyhoeddi'r adroddiad ddiwedd mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod swyddogion yn gwybod dros fis cyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gael ei hysbysu'n ffurfiol, dywedodd James Price wrth y Pwyllgor mewn gohebiaeth ysgrifenedig:

“Mae swyddogion wedi methu nodi unrhyw dystiolaeth bod y Gweinidog wedi cael gwybod yn anffurfiol am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi ei adroddiad cyn cael gwybod yn ffurfiol ar 24 Ebrill.”<sup>54</sup>

**84.** Ar sawl achlysur yn ystod y sesiwn dystiolaeth, awgrymodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd hefyd fod gwallau ffeithiol yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd hyn yn syndod i'r Pwyllgor, gan ein bod yn ymwybodol bod adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn destun proses glirio helaeth a thrylwyr gyda Llywodraeth Cymru a phob trydydd parti a enwir, er mwyn bod mor deg a chywir â phosibl. Pan gafodd ei herio gan y Pwyllgor ynghylch beth oedd y “gwallau ffeithiol” honedig hyn, dywedodd James Price:

---

<sup>53</sup> Llywodraeth Cymru, **Datganiad Ysgrifenedig**, 27 Ebrill 2017

<sup>54</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

“Mae fy sylwadau ynglŷn â chywirdeb adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â’n pryderon y gallai rhai o’r manylion fel y’u cyflwynir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, heb gynnwys gwybodaeth am y cyd-destun cysylltiedig a gwybodaeth ychwanegol, arwain at gamddehongli’r manylion neu gasgliadau anghywir gan ddarllenwyr nad oes ganddynt wybodaeth am y materion dan sylw.

Mewn nifer o feysydd, roeddem wedi gofyn i’r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwybodaeth ychwanegol i greu darlun llawnach, gan alluogi eraill i ddod i gasgliad teg wrth graffu ar yr adroddiad.”<sup>55</sup>

**85.** Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor ar 14 Medi 2017 gan nodi:

“I share the Committee’s concerns in this matter and I am particularly concerned that in its written response the Welsh Government has continued to imply that such shortcomings exist without actually providing any evidenced examples, despite the Committee’s direct request that it should do so.

I should therefore like to assure the Committee that:

- with the exception of one minor error (to which I have previously drawn the Committee’s attention) in relation to the economic efficiency test being a UK test and not specifically a Welsh test [see Report, paragraph 2.8], I remain satisfied that my Report is factually correct; and
- there is nothing contained in any of the Welsh Government’s evidence given in response to the Committee’s oral and written questions that would cause me to modify my Report’s conclusions.”<sup>56</sup>

**86.** Mae’r digwyddiadau hyn yn achos pryder mawr i’r Pwyllgor, gan ei fod yn gallu llesteirio ein gallu i ymgymryd yn effeithiol â’n swyddogaeth graffu. Rydym yn dibynnu ar adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol i graffu ymhellach ar bynciau, sy’n aml yn bynciau sensitif, ac nid ydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gwestiynau eu cywirdeb ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Rydym yn credu ei bod yn

---

<sup>55</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

<sup>56</sup> **Llythyr at y Pwyllgor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Medi 2017**

gwbl annerbyniol i un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru honni yn gyhoeddus bod yr adroddiad yn anghywir ac yna fethu â phrofi hynny.

**87.** Ar ben hynny, mae'r ffaith nad oedd swyddogion wedi hysbysu eu Gweinidog y byddai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar bwnc mor uchel ei broffil yn cael ei gyhoeddi, ac yna i Lywodraeth Cymru wneud Datganiad a oedd yn awgrymu bod cyhoeddi'r adroddiad yn annisgwyl ac wedi golygu nad oedd modd i'r Llywodraeth baratoi a ei gyfer, hefyd yn gwbl annerbyniol.

**88.** Rhaid i wybodaeth a ryddheir gan y Llywodraeth, boed i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i'r cyfryngau, fod yn gywir a theg, er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses graffu ddemocrataidd ar y weithrediaeth gan y senedd. Roedd y Pwyllgor yn hynod siomedig yng ngweithredoedd swyddogion y Llywodraeth mewn perthynas â'r adroddiad hwn, ac ni fyddem yn disgwyl gweld camau gweithredu fel hyn eto.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymhell y dylid atgoffa holl Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a holl Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru o'r gofynion yn y Codau Gweinidogol a Gwasanaeth Sifil i sicrhau cywirdeb yr holl wybodaeth a ryddheir.

### 3. Proses Benderfynu Llywodraeth Cymru

**89.** Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (ond nid yn gysylltiedig â hynny), ar 27 Mehefin 2017 penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chefnogi cais HoVDC am warant ariannol. Felly ehangodd y Pwyllgor gwmpas ei ymchwiliad i ymchwilio i faterion sy'n deillio o'r broses benderfynu honno.

#### Rôl “Grwpiau Sicrwydd Mewnol” a'r defnydd ohonynt

**90.** O gofio'r pryderon sy'n codi o'r cyllid cychwynnol ar gyfer y prosiect, archwiliodd y Pwyllgor y diwydrwydd dyladwy ar gyfer y broses benderfynu ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect. Eglurodd James Price fod y broses, a oedd ar y gweill ar y pwynt hwnnw, yn cynnwys:

“... someone looking at the business plan, there are people looking at the assumptions under the business plan, including specialists in motor sports, specialists in engineering, specialists in extreme sports, specialists in music and events. Cost consultants—some of the same ones that we use on transport projects, routinely—have been employed to look at the total cost of building the circuit. Does that look like value for money? Do the contracts in place look like they're reasonable? The fit-and-proper person test, as we've talked about, that is really akin to the old FCA test, but I suspect goes a bit further than that. A whole series of legal tests, state-aid tests, balance sheet tests.

And added to that, we've had an internal governance group created within the Welsh Government, where we've almost purposely picked out the people who will ask the most difficult questions to ask questions of the project team to ensure that whatever the decision is tomorrow that it is as informed as it possibly can be.

So, I think we have done a proper process this time. It's very time consuming, though, I would say, and has involved an awful lot of people and will have cost quite a lot of money in and of itself. The judgment is, 'What type of project do you go to this level of expense on?' I guess part of the answer is the type of project that is asking the public sector to take a £200 million risk.”<sup>57</sup>

---

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraff 350



**91.** Yn dilyn y cyfeiriad hwn at y grŵp llywodraethu mewnol, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am y grŵp hwnnw a sut yr ymatebodd swyddogion i'r her hon. Nododd James Price:

“Sefydlwyd y Grŵp Sicrwydd Mewnol ym mis Mawrth 2017 i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â phrosiect Cylchffordd Cymru. Cyfarfu'r grŵp dair gwaith i drafod y cynnig cyn i bapur y Cabinet gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2017. Rôl y grŵp oedd cynorthwyo swyddogion yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i gyflwyno adroddiad teg a chytbwys i'r Cabinet a oedd yn cynnwys yr holl feysydd pryder allweddol.

Roedd y grŵp yn cynnwys unigolion allweddol o bob rhan o Lywodraeth Cymru gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Cymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi, y Prif Economegydd a Chyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol. Hefyd, roedd y grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwyr ac unigolion â sgiliau allweddol (e.e. llywodraethu, Cyllid, cyfathrebu) yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.”<sup>58</sup>

**92.** Mewn gohebiaeth ddilynol, dywedodd Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru:

“Sefydlodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, James Price, y Grŵp Sicrhau Mewnol fel mesur ‘penodol’ ar gyfer Cylchffordd Cymru. Nid yw defnyddio grŵp o'r fath yn rhan arferol o Broses Llywodraethu neu Gymeradwyo Prosiect. O gofio maint a dylanwad y prosiect, daeth Mr Price i'r casgliad y dylid craffu a herio'r cyngor drafft a baratoir i Weinidogion gan brif swyddogion mor drylwyr â phosib i wneud yn siwr bod y cyngor a roddir i Weinidogion yn mynd i'r afael â phob agwedd allweddol, gan gynnwys y manteision a'r risgiau yn ogystal ag alinio polisiau.

Nid oedd y Grŵp Sicrhau'n rhan o'r broses gymeradwyo ffurfiol ond rhoddodd sicrwydd i uwch-swyddogion bod prosesau arfarnu a diwydrwydd dyladwy y prosiect wedi ymdrin â phob agwedd ar y cynnig, ac y byddai'r cyngor i'r Gweinidogion felly yn gyflawn.

Roedd uwch-swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn aelodau o'r Grŵp. Roedd ganddynt arbenigedd mewn meysydd penodol neu

---

<sup>58</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-17 P7, 2 Hydref 2017

roeddynt yn rhanddeiliaid posib. Yn eu plith yr oedd Cyfarwyddwyr o Dîm Arweinwyr Corfforaethol yr ESNR ynghyd â Chyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Prif Economegydd a Chyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r Grŵp Sicrhau ar bum achlysur rhwng Chwefror a Mehefin 2017, gan gynnwys un cyfarfod â rheolwyr Cylchffordd Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r swyddogion a oedd yn rheoli'r broses diwydrwydd dyladwy ac yn paratoi'r cyngor i Weinidogion a'r Cabinet am ganlyniad pob cyfarfod.”<sup>59</sup>

**93.** Ymddengys i ni fod defnyddio grwpiau sicrwydd mewnol yn fechanwaith defnyddiol i ddarparu proses graffu ychwanegol ar gyfer y prosiectau hynny nad ydynt yn brosiectau arferol. Mae'n hollbwysig bod y prosiectau hyn yn destun her fewnol gadarn ac adeiladol yn ystod yr amrywiol gamau cyn penderfynu (gan gynnwys ystyried canlyniadau diwydrwydd dyladwy), er mwyn helpu i sicrhau'r fargen orau bosibl i Gymru.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn safoni'r defnydd o'r mecanwaith “grŵp sicrwydd mewnol” ar gyfer pob penderfyniad buddsoddi cymhleth, newydd neu fawr yn y dyfodol.

## Creu Swyddi

**94.** Rhwng 2012 a 2017 cyflwynwyd sawl fersiwn o'r cynigion ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru i Lywodraeth Cymru gan HoVDC. Arweiniodd y fersiynau gwahanol at awgrymiadau amrywiol o ran faint o swyddi fyddai'n cael eu creu o'r prosiect hwn, a chynhaliwyd llw o astudiaethau yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn darparu amcangyfrifon gwahanol o'r swyddi a fyddai'n cael eu creu. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2017, dyfynnodd James Price ragdybiaethau craidd o 1000 o swyddi o'r Gylchffordd a 4000 o'r datblygiad dilynol.<sup>60</sup> Roedd y ffigurau hyn yn seiliedig ar waith a wnaed gan Brifysgol De Cymru yn 2012-13.

**95.** Fodd bynnag, roedd amcangyfrifon swyddi diweddarach yn sylweddol is. Er enghraifft, roedd y wybodaeth a gyflwynwyd i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru ym mis Mehefin 2014 yn seiliedig ar 304 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALL) uniongyrchol a oedd yn cynnwys 49 o weithwyr parhaol

---

<sup>59</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-02-18 P3, 22 Chwefror 2018

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2017, Paragraffau 24-41

amser llawn a staff dros dro ar gyfer digwyddiadau a oedd yn cyfateb i 255 o staff CALL.

**96.** Wrth egluro'r rheswm dros beidio â phenderfynu buddsoddi ymhellach yng Nghylchffordd Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith:

“...once the initial track and directly related development... had reached a steady state of trading around the year 2024, the number of direct full-time-equivalent (FTE) operational jobs would be little over 100. In addition, the circuit development could create around 500 indirect FTE jobs through potential visitor spend, as well as approximately 500 FTE construction jobs while the track was being built.”<sup>61</sup>

**97.** Eglurodd James Price fod y ffigurau a ddyfynnwyd i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ariannu'r Prosiect yn seiliedig ar yr wybodaeth diwydrwydd dyladwy yn y cynnig terfynol gan HOVDC.

**98.** Mae'r wybodaeth diwydrwydd dyladwy honno (y mae llawer ohoni wedi'i chyhoeddi<sup>62</sup> gan Lywodraeth Cymru ers hynny) yn nodi'n glir na fyddai cam cyntaf y prosiect yn creu nifer y swyddi a dybiwyd yn wreiddiol ar gyfer lefel y buddsoddiad, a bod llawer o'r swyddi a nodwyd yn rhan o ail gam y prosiect pan fyddai'r parc technoleg yn cael ei adeiladu. Nid oedd yr ail gam hwnnw'n rhan o'r cais am gyllid ac mae'n ddigon posibl y byddai wedi bod yn ofynnol cael rhagor o gymorth ar ffurf arian cyhoeddus ar gyfer hynny yn ddiweddarach.<sup>63</sup>

**99.** Mae'r gwahaniaethau yn y ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer y potensial i greu swyddi yn eithaf sylweddol ac yn codi cwestiynau pwysig ynghylch sut i bennu pa lefel o darged creu swyddi/gwerth am arian sy'n briodol ar gyfer gwarant benthyciad. Wrth roi grant, mae'n arfer sefydledig pennu targed creu swyddi sy'n cyfateb i'r buddsoddiad; fodd bynnag, gyda gwarant benthyciad lle mae'n bosibl (yn wir, yn ddelfrydol) nad oes unrhyw arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn gwirionedd, mae'r broses hon yn llawer mwy cymhleth. Mae natur y prosiect hwn yn codi nifer o gwestiynau am y swyddi amodol, gan fod hyn yn anodd ei werthuso a'i fapio ond gellid ei ystyried yn ffactor pwysig mewn prosiectau. Fodd bynnag rydym yn cydnabod, yn yr achos hwn bod nifer posibl y swyddi a oedd yn debygol o gael eu creu ar gyfer elfen 'gweledigaeth' gyffredinol Cylchffordd Cymru

---

<sup>61</sup> Datganiad **Ysgrifenedig**, Penderfyniad y Cabinet ar Gylchffordd Cymru 27 Mehefin 2017

<sup>62</sup> **Diwydrwydd Dyladwy Llywodraeth Cymru** ar brosiect Cylchffordd Cymru, 6 Hydref 2017

<sup>63</sup> Erthygl Newyddion y BBC, 27 Mehefin 2017 [Mynediad 1 Mai 2018]

a oedd yn cael ei hariannu (sef dim ond adeiladu'r gylchffordd ei hun) yn isel, ac y byddai hyn wedi bod yn ffactor pwysig ym mhroses benderfynu'r Cabinet.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu methodoleg fwy soffistigedig i werthuso effaith economaidd gyffredinol prosiectau a allai gael cymorth arianol gan y sector cyhoeddus, gan gynnwys dadansoddiad cadarn o rannu risgiau a manteision, a gwerth am arian gwarantau benthyciadau ac opsiynau cyllido eraill nad ydynt yn ymwneud â grant.

## Dosbarthiad y Fantolen a Dadansoddi Risg

**100.** Ar 27 Mehefin 2017 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith fod y Cabinet wedi cytuno i beidio â darparu'r cymorth gofynnol i danysgrifennu prosiect Cylchffordd Cymru. Mae'r sail resymegol dros y penderfyniad hwn a'r dull o'i gyrraedd wedi codi nifer o bryderon i'r Pwyllgor.

### Dosbarthiad y Fantolen

---

**101.** Nododd Llywodraeth Cymru bod y posibilrwydd y byddai Swyddfa Ystadegau Gwladol/Trysorlys Ei Mawrhydi yn dosbarthu'r prosiect fel "ar y fantolen" yn ffactor hynod arwyddocaol ym mhenderfyniad y Cabinet.

**102.** Mae'r wybodaeth gyhoeddus yn dangos, ar 13 Gorffennaf 2016, bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi datgan yn y Cyfarfod Llawn:

"Gan gynnwys gwarantau uniongyrchol Llywodraeth Cymru a benthyciadau gan awdurdodau lleol, mae'r cynnig diweddaraf a gyflwynwyd gan Cylchffordd Cymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru danysgrifennu tua 75 y cant o gyfanswm cost y prosiect o £370 miliwn, gydag awdurdodau lleol yn tanysgrifennu 8 y cant pellach. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion cefnogwyr y prosiect, mae hyn golygu nad yw'r sector preifat ond yn ysgwyddo oddeutu 17 y cant o'r risg.

Fel y mae ar hyn o bryd, mae'n annerbyniol fod trethdalwyr Cymru, drwy gymorth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ysgwyddo cymaint â hynny o'r risg, yn enwedig ar adeg pan ydym yn wynebu ansicrwydd economaidd sylweddol o ganlyniad i'r DU yn gadael Ewrop. Yn ein barn ni, nid yw'r prosiect hwn yn darparu'r lefel o werth am arian sy'n angenrheidiol ar hyn o bryd o ystyried y risg i gymaint o arian cyhoeddus. Ar sail hynny, rwyf wedi dweud wrth Michael Carrick a Martin Whitaker heddiw fy mod yn credu bod angen gwneud rhagor o

waith ar y cynnig hwn. Mae fy nrws yn parhau i fod yn gwbl agored ac rwyf wedi eu hannog i ddiwygio eu cais yn y fath fodd fel bod y sector preifat yn ysgwyddo mwy o'r risg er mwyn i'r prosiect hwn allu mynd rhagddo.

Mae angen i ni weld o leiaf 50 y cant o'r prosiect hwn yn cael ei ariannu a 50 y cant o'r risg yn cael ei thanysgrifennu gan y sector preifat i gyfiawnhau gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a phwrs y wlad ac maent wedi derbyn yr egwyddor hon. Bydd fy swyddogion yn awr yn gweithio'n adeiladol gyda thîm Cylchffordd Cymru er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus er budd economi leol Glynabwy a Chymru yn gyffredinol.”<sup>64</sup>

**103.** Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 i beidio â darparu cefnogaeth i'r prosiect drwy warantu'r £210 miliwn y gofynnwyd amdano, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith y datganiad isod yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin 2017:

“Ym mis Gorffennaf y llynedd dywedais wrth y cwmni y buaswn yn disgwyl gweld y sector preifat yn ariannu o leiaf 50 y cant o'r prosiect ac yn ymgymryd â 50 y cant o risg ariannol y prosiect, a bod y prosiect yn ei gyfanrwydd yn rhoi gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a phwrs y wlad.

Ym mis Chwefror, cyflwynodd y datblygwyr gynnig newydd i Lywodraeth Cymru. Dilynwyd hyn gan gais ffurfiol ym mis Ebrill, yn gofyn am warantu benthyriad o £210 miliwn. Mae diwydrwydd dyladwy helaeth a manwl gan arbenigwyr allanol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos, oherwydd y ffordd y mae'r cytundeb wedi ei strwythuro, y byddai'r cynnig presennol yn gweld Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo mwy na 50 y cant o'r risg. Mae hynny oherwydd y byddai'r elfen warant o £210 miliwn yn cario risg uwch na rhannau eraill y pecyn ariannol”<sup>65</sup>

**104.** Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pwynt hwnnw, mae'r Heads of the Valleys Development Company wedi dweud:

“at no point during the due diligence process was the company told by the Welsh Government that this was an issue and that the Welsh

---

<sup>64</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cyfarfod Llawn**, Paragraff 212, 13 Gorffennaf 2016

<sup>65</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cyfarfod Llawn**, Paragraffau 241 -288, 27 Mehefin 2017

government believed that it would be exposed to more than 50% of the risk.”<sup>66</sup>

**105.** Yn ei ddatganiad ar 27 Mehefin 2017, aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ymlaen i ddweud:

“O ganlyniad, yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn ystod y broses diwydrwydd dyladwy, aserir bod risg sylweddol iawn y byddai dyled lawn £373 miliwn prosiect cyfan Cylchffordd Cymru yn cael ei dosbarthu fel gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru.”<sup>67</sup>

**106.** Mewn ymateb i'r pwynt hwnnw, dywedodd yr Heads of the Valleys Development Company:

“the company was never informed or made aware of this ONS and HM Treasury advice during the due diligence process. We were promised by Welsh Government officials that we would be consulted if any significant issues arose during due diligence and given an opportunity to respond.”<sup>68</sup>

**107.** Yng ngoleuni'r datganiadau anghyson hyn, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch:

- y dyddiadau y dywedodd wrth HoVDC gyntaf am ei phryder y byddai gwarantu'r £210 miliwn ar gyfer Cylchffordd Cymru yn golygu mai'r sector cyhoeddus a fyddai'n ysgwyddo dros 50% o risg y prosiect;
- y dyddiad y dywedodd Llywodraeth Cymru wrth HoVDC gyntaf am farn swyddogion Trysorlys Cymru ynghylch y posibilrwydd y byddai'r prosiect yn cael ei drin fel un a fyddai ar y fantolen yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru;
- yr ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru gan HoVDC ar y ddau bwynt hwn cyn penderfyniad y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 i beidio â gwarantu'r £210 miliwn fel y gofynnwyd.<sup>69</sup>

---

<sup>66</sup> **Datganiad i'r wasg HoVDC, Mehefin 2017** [fel ar 1 Mai 2018]

<sup>67</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cyfarfod Llawn**, Paragraffau 241 -288, 27 Mehefin 2017

<sup>68</sup> **Datganiad i'r wasg HoVDC, Mehefin 2017** [fel ar 1 Mai 2018]

<sup>69</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-31-17 P1, 2 Hydref 2017

---

**108.** Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd wrth y Pwyllgor fod y materion hyn wedi cael eu trafod gyda HoVDC mor gynnar â gwanwyn 2016. Nododd:

“Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr HOVDC yn rheolaidd, yn enwedig rhwng mis Hydref 2016 a mis Mehefin 2017. Byddai lefel y risg i'r sector cyhoeddus a sut y dylid ymdrin â'r mater o ran ei gynnwys ar y fantolen ai peidio yn rhan o'r trafodaethau hynny. O ran y cynnig a gyflwynwyd gan HOVDC ym mis Chwefror 2017, ni ddaeth maint y risg posibl i Lywodraeth Cymru i'r amlwg tan ar ôl i'r adroddiadau diwydrwydd dyladwy drafft ddod i law ym mis Mai 2017, ac ar ôl ymgynghori â Thrysorlys EM. ...Cafodd copïau drafft o'r adroddiadau diwydrwydd dyladwy, neu rannau ohonynt, eu rhannu â chynrychiolwyr HOVDC ym mis Mai a mis Mehefin 2017 er mwyn iddynt gael gwirio'r ffeithiau, ac ymhlith yr adroddiadau hynny yr oedd y prif adroddiad diwydrwydd dyladwy a baratowyd gan Grant Thornton. Cyflwynodd HOVDC sylwadau manwl am adroddiad Grant Thornton bryd hynny i gywiro camgymeriadau ffeithiol ac i dynnu sylw at feysydd lle'r oeddent yn anghytuno â dadansoddiad Grant Thornton. Er na wnaeth HOVDC unrhyw sylw penodol ar gydbwysedd y risg, gwnaethant herio'r modd y cyflwynwyd yr asesiad o rwymedigaeth ariannol posibl ar Lywodraeth Cymru o dan y warant. Fodd bynnag, nid oedd Grant Thornton yn derbyn y dadansoddiad hwnnw ac, er hynny, rhoddodd HOVDC gadarnhad ysgrifenedig am gywirdeb ffeithiol yr adroddiad.

Er na roddwyd gwybod i HOVDC am asesiad terfynol Llywodraeth Cymru o risg y prosiect ac o'i ddosbarthiad cyn trafodaeth y Cabinet ar 27 Mehefin 2017, roedd HOVDC wedi deall a derbyn yr egwyddorion cyffredinol yn ystod 2016.”<sup>70</sup>

**109.** Pwysleisiodd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am ei phenderfyniad i beidio â chefnogi'r prosiect mai'r dosbarthiad cyfrifyddu oedd y prif reswm dros beidio â chefnogi'r prosiect. Roedd hwn yn bryder a gododd y Pwyllgor gyda'r Ysgrifennydd Parhaol. Ceisiodd hithau leddfu pryderon y Pwyllgor, ar ôl myfyrio'n fanwl ar y trawsgrifiad, gan esbonio:

“Er bod y mater o gategoreiddio, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i reoli risg mewn ffordd ddarbodus mewn maes sy'n un hynod gymhleth, wedi chwarae rhan bwysig wrth asesu a ddylid cefnogi menter Cylchffordd Cymru ai peidio, nid y materion hynny, o bell ffordd, oedd

---

<sup>70</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-31-17 P1, 2 Hydref 2017

yr unig ystyriaethau wrth gynnal yr asesiad hwnnw. Yn wir, roedd materion eraill mwy masnachol eu natur yn destun pryder. Manylir ar y materion hynny yn yr adroddiadau diwydrwydd dyladwy a gyhoeddwyd am y prosiect hwn, e.e. yr hyn a oedd yn cael ei hawlio o ran nifer y swyddi a fyddai'n cael eu creu neu o ran hyfywedd y model busnes. Felly, nid ar sail dehongliad cul o'r rheolau cyfrifyddu, a hynny'n unig, y penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chefnogi'r cynllun hwn.”<sup>71</sup>

**110.** Nododd y Pwyllgor hefyd, yn y sesiwn dystiolaeth ar 5 Chwefror 2018, fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai'n rhaid bod y gwarant wedi bod oddeutu 50 y cant yn is neu'n £100 miliwn. Gofynnodd yr Aelodau i'r tystion a drafodwyd hyn gyda'r cwmni cyn penderfyniad y cabinet. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na chafodd gostyngiad yn y gwarant ei drafod gyda'r cwmni cyn penderfyniad y Cabinet oherwydd:

“Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi dod i gasgliad ffurfiol ynghylch pa lefel o warant na fyddai'n achosi risg dosbarthu sylweddol. O gofio maint y buddsoddiad a'r risg fasnachol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r strwythur arfaethedig, byddai angen gwarant llawer llai i liniaru'r risg o gael dosbarthiad anffafriol - lleihad o fwy na 50% o bosibl. Fodd bynnag, nid oedd y paup yn gallu nodi rhif penodol.”<sup>72</sup>

**111.** Er bod y Pwyllgor yn deall y ddadl hon, credwn y byddai rhywfaint o werth o fod wedi trafod y mater hwn gyda'r cwmni cyn gwneud y penderfyniad i sicrhau bod yr holl opsiynau wedi cael eu harchwilio.

**112.** Mae llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol dyddiedig 5 Mawrth 2018 i'r Pwyllgor yn ei gwneud yn glir bod gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y strwythur cyllido a'r cydbwysedd risg a oedd yn mynd y tu hwnt i'r materion yn ymwneud â dosbarthiad y fantolen a amlygwyd yng nghyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 ynghylch y ffaith na fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r gwarantau ariannol angenrheidiol i'r Prosiect fynd yn ei flaen.

**113.** Credwn y byddai datganiad llawnach gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg honno, ynghylch yr amrywiol resymau dros ei phenderfyniad, wedi osgoi llawer o'r dadleuon gwleidyddol, cyhoeddus ac yn y cyfryngau ynghylch rhinweddau'r penderfyniad.

---

<sup>71</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-08-18 P3, 12 Mawrth 2018

<sup>72</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-08-18 P3, 12 Mawrth 2018



## Cyngor o ffynonellau allanol

---

**114.** Dim ond ar ôl i brosiect gael ei gwblhau a phan fydd contract wedi'i lofnodi y mae'r ONS yn rhoi dosbarthiad ffurfiol ynghylch a yw prosiect "ar" neu "oddi ar" fantolen y Llywodraeth. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r broses ddosbarthu ffurfiol, mae'r ONS yn gweithredu mecanweithiau ar gyfer darparu cyngor anffurfiol i gyrrff y llywodraeth, sy'n gallu gofyn am ganllawiau dros dro gan yr ONS cyn cwblhau'r prosiect a llofnodi'r contract.

**115.** Mae cofnodion cyfarfod y Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017 yn datgan:

"Wales: Circuit of Wales, currently under due diligence. If classification related issues arise then will inform ONS."

**116.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd swyddog Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn naill ai ddim yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â dosbarthu'r fantolen a godwyd gan yr adroddiadau diwydrwydd dyladwy erbyn 12 Mehefin, a oedd yn adlewyrchu golwg drawsadrannol ar yr adeg honno; neu nad oedd yn ymwybodol o faterion dosbarthu a oedd yn cael eu trafod gan Drysorlys Cymru neu swyddogion Adrannau eraill. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

"Roedd y swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwybod bod problemau posib â dosbarthiadau oherwydd cynnig Cylchffordd Cymru. Ar 12 Mehefin 2017, adeg cynnal cyfarfod y Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol, roedd Cylchffordd Cymru yn parhau'n destun ystyriaeth.

Mae'r Cofnodion yn cyfeirio at y ffaith na fyddai'r ONS wedi cael gwybod tan ar ôl penderfyniad mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i gynnig cymorth a than y byddai dogfennau'r contract ar gael yn eu ffurf derfynol neu led derfynol. Nid oedd yr amodau hynny'n bod ar y pryd."<sup>73</sup>

**117.** Mae'r Pwyllgor yn ansicr pa ran o'r cofnodion sy'n cyfeirio at y ffaith na fyddai'r ONS wedi cael gwybod tan ar ôl penderfyniad mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i gynnig ei chymorth a than y byddai dogfennau'r contract ar gael ar ffurf derfynol neu led derfynol. Fodd bynnag, ymddengys yn ddoeth inni y byddai'r

---

<sup>73</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-08-18 P3, 16 Ionawr 2018

swyddog o Lywodraeth Cymru wedi nodi hyn fel problem bosibl ar 12 Mehefin 2017 o gofio y byddai'n cael ei ystyried yn ddiweddarach y mis hwnnw.

**118.** Wrth wneud y penderfyniad y byddai lefel y warant ar gyfer y prosiect yn debygol o beri i'r ONS ddsbarthu'r prosiect fel un sydd ar y fantolen, nid ofynnodd Llywodraeth Cymru am unrhyw gyngor gan yr ONS ynghylch sut y byddai'r prosiect hwn yn cael ei ddsbarthu. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru pam nad oedd wedi gofyn am ganllawiau dros dro, ac eglurodd Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr – Trysorlys, Llywodraeth Cymru:

“That Ministers hadn't made a decision in principle to go ahead with supporting the project.”<sup>74</sup>

**119.** Mae'r Pwyllgor yn deall y rhesymeg hon gan fod methodoleg dosbarthiad economaidd yr ONS yn nodi:

“Most policy proposals are in a near-final form when presented to ONS and will include all the relevant details to enable ONS to make a judgement. Any classification decision based on a near-final policy proposal will be deemed as “provisional” and dependent on the proposal being implemented as described.”<sup>75</sup>

**120.** Fodd bynnag, mae'r fethodoleg hon yn mynd ymlaen i nodi:

“However, on rare occasions, government departments might seek a view on a proposal at an early stage of development. In such cases, ONS will provide provisional advice on the expected classification of the proposal, based on information available at the time. This is subject to the qualification that a final decision will not be reached until such a time as the policy is implemented.”<sup>76</sup>

**121.** Felly ymchwiliodd y Pwyllgor i pam na ddefnyddiwyd y ddarpariaeth hon i geisio barn ar gynnig ar gam datblygu cynnar yn yr achos hwn, o gofio arwyddocâd y prosiect i Gymru. Awgrymodd Andrew Jeffreys ei fod o'r farn bod yr ONS yn cyfeirio'n bennaf at brosiectau/mentrau'r Llywodraeth yn hytrach na phrosiectau'r sector preifat, ond dywedodd:

---

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2018, paragraff 146

<sup>75</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol, **UK economic statistics sector and transaction classifications: the classification process** [fel ar 1 Mai 2018]

<sup>76</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol, **UK economic statistics sector and transaction classifications: the classification process** [fel ar 1 Mai 2018]

“Private sector projects that have very significant Government subsidy do end up on—or Government support or Government guarantees—. So, just because it’s a private sector project, doesn’t mean it doesn’t engage classification issues. The only point I’m trying to make is that what the ONS usually have in mind when they’re talking about those kind of policy ideas are things that Government’s intending to do and they want to shape that policy with advice from ONS rather than private sector projects that are looking for Government support. It’s a slightly unusual arrangement, really, for them to be giving an opinion on.”<sup>77</sup>

**122.** O gofio bod darpariaeth i ofyn am gyngor ar ddsbarthiad o’r math hwn o brosiect, a bod pwyslais sylweddol wedi’i roi ar y dosbarthiad gan y Cabinet wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio, byddai wedi bod yn ddarbodus i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan yr ONS am y dehongliad o hyn ar gam cynnar. Nid oedd y Pwyllgor yn gallu canfod eglurhad boddhaol ynglŷn â pham nad fu i Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

### Canllawiau Pwysoli Risg

---

**123.** Esboniodd Andrew Jeffreys i’r Pwyllgor:

“...the risk weighting of the capital is an important part of the consideration. So, a guarantee that’s not junior to the other elements of the funding carries less weight than a guarantee that is junior to other elements of the funding. So, it’s not only the size of the guarantee that’s crucial; it’s what the relative risk of that guarantee is in the overall capital structure. So, where a guarantee is more junior to other elements of funding, then the classification guidance suggests that you should weight that funding more heavily than other elements. And the kind of standard metric might be twice as high—the more junior debt weighted twice as high as the more senior debt.”<sup>78</sup>

**124.** Yn ystod y cyfarfod, canfu’r Pwyllgor fod y Llywodraeth wedi defnyddio canllawiau pwysoli yn seiliedig ar bartneriaethau cyhoeddus-preifat yn hytrach na chonsesiynau gwasanaeth. Dywedodd Andrew Jeffreys wrth y Pwyllgor fod y dull hwn yn seiliedig ar gyngor cydweithwyr yn y Trysorlys er bod y Llywodraeth eisoes wedi dod i’r casgliad y dylai hyn yn cael ei drin fel consesiwn. Nododd:

---

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2018, paragraff 156

<sup>78</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2018, paragraff 41

“There’s published and public guidance on consideration of these kinds of projects, so that’s Office for National Statistics and Eurostat guidance, but then we consulted with colleagues in the classification branch in... HM Treasury, and also informally with ONS colleagues as well.”

**125.** Tynnodd sylw at y ffaith mai:

“Part of the problem with the guidance is that it’s not very specific about some aspects, and that there’s quite a lot of case-by-case consideration, not least because these projects, I suppose, are kind of unique in general.”<sup>79</sup>

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio gyda Thrysorlys ei Mawrhydi a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i a oes modd gwella’r canllawiau cyhoeddiedig ar bwysoliad risg prosiectau o’r math hwn er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl berthnasol mewn cyd-destun datganoledig.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartion perthnasol i sefydlu polisi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau mawr, a fydd yn nodi ffynonellau cyngor posibl megis ONS, IPA.

**126.** Nododd y Pwyllgor fod y gadwyn e-bost rhwng Trysorlys Cymru a’r DU wedi dod i ben gyda Thrysorlys y DU yn awgrymu na fyddai’n briodol iddo roi barn ynghylch a ellid cynnwys cyfranddaliadau ac ailariannu dyled fel rhan o gyfanswm y cyllid er mwyn penderfynu ar lefel y warant, ac awgryma y dylai Trysorlys Cymru siarad â’r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (IPA) (canolfan arbenigedd Llywodraeth y DU ar gyfer seilwaith a phrosiectau mawr). Dywedodd Andrew Jeffreys mai barn Trysorlys Cymru yn y pen draw oedd nad oedd yn arwyddocaol pe bai cyfranddaliadau a dyled ailariannu yn cael eu cyfrif. Eglurodd na chafodd hyn ei drafod ymhellach gyda’r IPA gan y ceisiwyd pennu cost gyffredinol y prosiect, ac felly cost cyfran y warant a geisir:

“...the £210 million was virtually 50 percent even of the unadjusted total cost of the project, and because of the risk-weighting issue that we’d been advised was important to consider, it wasn’t material whether to include or exclude those elements, because you were at 49 per cent if you included everything, and if you applied any kind of weighting to that 49 per cent, then clearly you were above 50 very, very quickly.”<sup>80</sup>

---

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2018, paragraff 45

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2018, paragraff 58

**127.** Rydym yn deall y rheswm dros y penderfyniad i beidio â thrafod hyn ymhellach gyda'r IPA, nid oedd yn bosibl inni ganfod a oedd y Cabinet wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad hwn. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch a oedd cafeat yn ymwneud â'r penderfyniad ym mhapur y Cabinet o ran y cyngor ar y canllawiau pwysoli risg.

**128.** Gwrthododd Ysgrifennydd y Cabinet rannu papur y Cabinet gyda'r Pwyllgor yn unol â chonfensiynau arferol dal papurau sensitif y Cabinet yn ôl er mwyn diogelu preifatrwydd polisi'r Llywodraeth a phenderfyniadau masnachol. Fodd bynnag ceisiodd roi sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod yn fodlon bod digon o wybodaeth yn y papur er mwyn i'r Cabinet wneud penderfyniad hyddysg.

**129.** Fel y nodwyd, roedd p'un a ellid cynnwys cyfranddaliadau ac ailgyllidebu dyled fel rhan o gyfanswm y cyllid er mwyn pennu lefel y warant yn ddim ond un ffactor o blith llawer a arweiniodd at benderfyniad Llywodraeth Cymru, ond hoffai'r Pwyllgor bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y Cabinet yn cael y darlun llawn wrth wneud penderfyniadau.

## Cyfathrebu â Heads of the Valleys Development Company

Dim "showstoppers"

---

**130.** Yn ddadl yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad (27 Mehefin 2017) ar y penderfyniad i beidio â buddsoddi yn y prosiect a hefyd yn y cyfryngau, cyfeiriwyd at neges e-bost a anfonwyd gan un o uwch Swyddogion Llywodraeth Cymru at Aviva Investors ar 14 Mehefin 2017. Roedd yr e-bost yn amlinellu eu bod nhw [Llywodraeth Cymru] wedi siarad â chyfreithwyr ynglŷn â chydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd. Aiff ymlaen i ddweud nad oedd dim "showstoppers" yn gysylltiedig â'r prosiect. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael eglurhad o ystyr hyn, o gofio y byddai'r cyngor ar ddosbarthiad y fantolen a oedd yn cylchredeg o fewn Llywodraeth Cymru yn ffactor arwyddocaol yn natganiad y Cabinet i wrthod rhoi cyllid ar gyfer y prosiect ar 27 Mehefin (13 diwrnod yn ddiweddarach). Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

"Roedd yr uwch-swyddog yn gwybod am broblemau posibl â'r dosbarthiadau oherwydd cynnig Cylchffordd. Ond roedd y trafodaethau ar 13 Mehefin a'r e-bost dilynol yn ymdrin yn unig â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE. Dyma destun llawn yr e-bost, dyddiedig 14 Mehefin 2017, a anfonwyd at Aviva Investors:

As we are drawing towards the close of our project appraisal process we had a conference with Counsel yesterday on state aid. The good news is that at the moment there does not appear to be

any showstoppers but there is one point that I would like to discuss with you in relation to deal structure.”<sup>81</sup>

**131.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd y cafwyd trafodaeth yn ymwneud â strwythur y cynnig wedi hynny, ac y gwnaed y newidiadau angenrheidiol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhywfaint o le i ddehongli geiriad yr e-bost hwn, ond yn derbyn yr esboniad bod hyn yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol yn unig. Fodd bynnag, rydym yn siomedig bod yr esboniad llawnach o'r mater hwn wedi cymryd cymaint o amser i ddod i law. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol gadarnhau a oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi cadarnhad i Richard Parry-Jones a Martin Whitaker ar 23 Mehefin 2017 nad oedd unrhyw faterion heb eu datrys. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

“Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol gyda HOVDC ddydd Gwener 23 Mehefin, a hynny'n rhan o'r rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd a drefnwyd ymlaen llaw i drafod cynnydd. Ni chadarnhaodd swyddogion wrth HOVDC nad oedd unrhyw broblemau mawr na materion heb eu datrys. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddogion nad oedd rhagor o wybodaeth yn cael ei geisio oddi wrth HOVDC cyn i'r Cabinet ystyried ei benderfyniad.”<sup>82</sup>

## Cyfathrebu ar ôl y Penderfyniad

---

**132.** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod â HOVDC ar 30 Mehefin 2017, yn dilyn penderfyniad y Cabinet i beidio â darparu'r warant ar gyfer y prosiect. Cynhyrwyd nodyn ffurfiol o'r cyfarfod gan swyddogion Llywodraeth Cymru i'w gadw fel rhan o gofnod mewnol Llywodraeth Cymru ar y prosiect. Fodd bynnag, hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd y nodiadau hyn wedi'u rhannu â HoVDC adeg eu drafftio, “yn unol â'r hyn sy'n arferol ar gyfer dogfennau mewnol” o fewn Llywodraeth Cymru.

**133.** Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r nodiadau hyn i helpu i egluro nifer o bryderon ynghylch yr hyn a gyfathrebwyd i'r cwmni ynglŷn â'r amseriad ar gyfer cychwyn y warant. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gopi wedi'i olygu inni o'r nodiadau (roedd hunaniaeth swyddogion iau ac ariannwyr allweddol y prosiect wedi'i chuddio oherwydd sensitifrwydd masnachol). Fodd bynnag, cawsom ein synnu nad oedd y nodyn wedi'i gytuno ar y pryd gyda HOVDC.

---

<sup>81</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-02-18 P3, 16 Ionawr 2018

<sup>82</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-08-18 P3, 12 Mawrth 2018

**134.** Ysgrifenasom at HOVDC i ofyn a oedd yn ystyried bod nodyn Llywodraeth Cymru yn gofnod teg a chywir o'r cyfarfod. Mewn ymateb i'n llythyr, dywedodd Michael Carrick nad oedd HOVDC wedi gweld y nodyn hwn adeg y cyfarfod, ac nad oedd y cwmni'n ystyried bod hyn yn adlewyrchiad cywir o'r sgwrs. Hefyd, rhoddodd gopi i'r Pwyllgor o'r diwygiadau y gofynnodd y cwmni i Lywodraeth Cymru eu nodi, sy'n ddiwygiadau helaeth. Nid yw'r Pwyllgor wedi ceisio barn Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a gynigiwyd gan HoVDC.<sup>83</sup>

**135.** Rydym yn synnu na rannodd Llywodraeth Cymru ei nodyn o'r cyfarfod gyda HoVDC adeg ei ddrafftio. Nid yw'r nodyn yn amlinellu safbwyntiau, myfyrdodau na chyingor mewnol Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog; yn hytrach mae'n gofnod ffeithiol o gyfarfod sy'n nodi pwy a ddywedodd beth. Ychydig iawn o werth sydd i'r nodyn fel tystiolaeth os nad yw pawb a gynhwysir ynddo wedi cytuno arno ar y pryd, gan y gellir cwestiynu ei gywirdeb - fel sydd wedi digwydd ers hynny yn yr achos hwn. Ymddengys i'r Pwyllgor y byddai'n gam doeth ac yn synnwyr cyffredin i ddsbarthu nodiadau cyfarfodydd ar ffurf drafft i bawb sy'n mynychu er mwyn cadarnhau eu cywirdeb ffeithiol, yn enwedig pan fo Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau masnachol.

**136.** Roedd diffyg dogfennaeth gyfoes briodol yn thema allweddol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyllid cychwynnol y prosiect hwn, a byddai'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn dysgu o hyn er mwyn sicrhau nad yw materion tebyg yn codi mewn prosiectau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu arfer safonol o sicrhau bod yr holl bartion perthnasol yn cytuno ar gywirdeb ffeithiol nodiadau cyfarfodydd adeg eu drafftio.

## HOVDC a'r Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwy

**137.** Ers i broses casglu tystiolaeth y Pwyllgor ddod i ben, ar 22 Chwefror 2018 ymrwymodd HoVDC i Drefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwy, sef trefniant i dalu credydwy dros gyfnod penodol sy'n caniatáu i gwmni cyfyngedig barhau i fasnachu os bydd y credydwy yn cytuno.

**138.** Gwrthwynebodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, y mae gan y cwmni ddyled o £171,00 iddo, y trefniant hwn yn ffurfiol ond cafodd ei drechu gan y credydwy eraill (y mae gan lawer o'u cyfarwyddwyr gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â HoVDC ei hun).

---

<sup>83</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-10-18 P11, 16 Ebrill 2017

**139.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhan or Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwy'r er bod gan HoVDC ddyled o £7.3 miliwn iddi mewn perthynas â'r warant benthyciad. Dyfynnwyd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru yn dweud:

“The Welsh Government is a secured creditor of HOVDC and as such has priority for repayment ahead of the unsecured creditors included in the CVA.”<sup>84</sup>

**Argymhelliad 13.** O gofio'r Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwy'r a statws ariannol ansicr HOVDC, mae angen eglurhad ar y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru o'r camau y mae'n eu cymryd i adennill y ddyled o £7.3m gan HoVDC sy'n deillio o warant benthyciad Llywodraeth Cymru.

---

<sup>84</sup> **Erthygl yn wasg gan Wales online.** Company set up to build Circuit of Wales has debts of more than £31m [fel ar 20 Ebrill 2018]

---



## Atodiad – Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?iid=15833>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
26 Mehefin 2017	James Price, Llywodraeth Cymru Tracey Mayes, Llywodraeth Cymru
2 Hydref 2017	James Price, Llywodraeth Cymru * * er nad oedd Mr Price yn ymddangos gerbron y Pwyllgor yn benodol i drafod prosiect Cylchffordd Cymru, cododd cwestiynau am hynny yn ystod ei sesiwn ymadawol
5 Chwefror 2017	Shan Morgan, Llywodraeth Cymru Andrew Slade, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Llywodraeth Cymru